

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Trais ar sail rhywedd

Anghenion menywod mudol

Hydref 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddCydraddoldeb](https://twitter.com/SeneddCydraddoldeb)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Trais ar sail rhywedd

Anghenion menywod mudol

Hydref 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



Jane Dodds AS
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Altaf Hussain AS
Ceidwadwyr Cymreig



Sarah Murphy AS
Llafur Cymru



Ken Skates AS
Llafur Cymru



Sioned Williams AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	6
1. Cyflwyniad.....	9
Cefndir	9
Casglu tystiolaeth	9
Cefndir y polisi	10
Effaith y newidiadau hyn.....	11
Strategaethau Llywodraeth Cymru	12
Darparu gwasanaethau yng Nghymru.....	13
2. Y prif heriau y mae menywod mudol yn eu hwynebu	15
Iaith a chyfathrebu	15
Barn Llywodraeth Cymru.....	16
Normau diwylliannol	17
Cam-drin mewnfudwyr.....	17
Ein barn ni	19
Codi ymwybyddiaeth	20
Strategaethau atal.....	22
Barn Llywodraeth Cymru.....	23
Ein barn ni	24
3. Dod o hyd i gymorth.....	26
Heb Hawl i Arian Cyhoeddus	26
Barn Llywodraeth Cymru.....	29
Ein barn ni	30
Rhyngweithio rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a statws Heb Hawl i Arian Cyhoeddus	31
Barn Llywodraeth Cymru.....	32

Ein barn ni	33
Gallu sefydliadau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol.....	33
Barn Llywodraeth Cymru.....	35
Ein barn ni	35
Mynediad at gyngor cyfreithiol	35
Ein barn ni	36
Hyfforddi gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen.....	37
Barn Llywodraeth Cymru.....	39
Ein barn ni	39
4. Casglu a rhannu data	41
Casglu data	41
Barn Llywodraeth Cymru.....	42
Ein barn ni	42
Rhannu data	43
Barn Llywodraeth Cymru.....	45
Ein barn ni	46
5. Dull strategol Llywodraeth Cymru.....	48
Barn Llywodraeth Cymru.....	49
Ein barn ni	50
Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar	51
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	53

Rhagair y Cadeirydd

Dylai pob menyw yng Nghymru gael mynediad rhwydd at gymorth os byddant yn wynebu trais a cham-drin, ni waeth pa ffurf mae'n ei gymryd.

Mae menywod mudol yn wynebu heriau ychwanegol, a gallant yn hawdd syrthio drwy'r bylchau mewn strategaethau a gynlluniwyd i gefnogi menywod sy'n cael eu cam-drin. Yn rhy aml maen nhw'n cael eu hunain wedi'u hynysu mewn amgylchedd sy'n ymddangos yn elyniaethus, i ffwrdd o rwydweithiau teuluol a chymorth, sy'n cael ei waethygu gan gyfyngiadau deddfau mewnfudo'r DU.

Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom am y rhwystrau a gyflwynwyd o ran iaith, effaith rhai normau diwylliannol a'r risg o gam-drin mewnfudo, yn ogystal â'r rhwystrau sy'n wynebu'r rhai Heb Hawl i Arian Cyhoeddus.

Fe glywsom yn glir bwysigrwydd gweithio gyda chymunedau, a gwrando ar lais y goroeswyr i wella ffyrdd o godi ymwybyddiaeth a strategaethau atal. Clywsom dystiolaeth anecdotaidd bod dioddefwyr yn oedi cyn gofyn am gymorth oherwydd ofnau ynghylch sut y bydd gwasanaethau rheng flaen yn ymdrin â'u hachosion. Mae gwasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer y menywod hyn yn hanfodol yn eu gofal a'u hadferiad ond, yn aml, mae diffyg adnoddau ac mae gwasanaethau'n cael eu llethu.

Roedden ni'n ffodus o allu cwrdd â goroeswyr a chlywed eu straeon dirdynol yn uniongyrchol ganddynt. Roedden ni'n ddiolchgar dros ben i'r rhai a roddodd eu hamser ac a rannodd eu profiadau â ni. Roedd hyn yn hanfodol wrth lunio ein dull o weithredu ac ehangu ein dealltwriaeth o'r materion, ac atgyfnerthodd ein barn fod llais goroeswyr yn hanfodol.

Nod ein hargymhellion i Lywodraeth Cymru yw darparu eglurder i bawb, gan gynnwys dioddefwyr a goroeswyr, a'r gwasanaethau sy'n darparu cymorth, yn ogystal â llunwyr polisi. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i ddod o hyd i atebion i'r heriau y mae menywod Heb Hawl i Arian Cyhoeddus yn eu hwynebu. Credwn fod angen dull wedi'i dargedu ac wedi'i deilwra o gefnogi'r grwpiau hyn o fenywod ar gyfer ei Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac mae'n rhaid ystyried eu hanghenion a'u heriau penodol.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ffordd y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r problemau sy'n cael eu hamlygu ynghylch iaith a darparu cyfieithu ar y pryd ar gyfer menywod mudol. Rhaid i hyn gynnwys nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i atal asiantaethau statudol rhag defnyddio aelodau o'r teulu a/neu Bawso fel cyfieithwyr, heblaw mewn achosion brys neu argyfyngus. I gefnogi asiantaethau i wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried creu cyfeiriadur o gyfieithwyr ar y pryd cydnabyddedig hefyd. Tudalen 20

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â goroeswyr trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd o gymunedau mudol, a rhanddeiliaid eraill fel awdurdodau lleol, wrth ddatblygu strategaeth gymunedol ar godi ymwybyddiaeth ac atal, a all ffurfio canllawiau ar gyfer cyrff statudol..... Tudalen 25

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa argyfwng y gall darparwyr gwasanaethau gael mynediad ati i gefnogi menywod mudol sy'n ddioddefwyr neu wedi goroesi Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd a Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, gan ddefnyddio strategaeth 'Ending Destitution Together' Llywodraeth yr Alban fel enghraifft. Disgwyliwn y caiff y gwaith hwn ei gyflawni yn y chwe mis nesaf, gyda bwriad i sefydlu cronfa erbyn mis Gorffennaf 2023..... Tudalen 31

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariadau blynyddol ar ei gwaith o ran pobl Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, gan gynnwys gwaith y grŵp llywio Heb Hawl i Arian Cyhoeddus; cynnydd o ran opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer cefnogi menywod mudol Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, a thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU. Tudalen 31

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o weithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i weld pa effaith y mae wedi'i chael ar fenywod mudol Heb Hawl i Arian Cyhoeddus a'u plant. Dylid cynnal yr adolygiad o fewn y chwe mis nesaf a dylai edrych yn ofalus ar ffyrdd o sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yn gyson ledled Cymru. Tudalen 33

Argymhelliad 6. Dylai'r adolygiad gynnwys gwerthusiad o'r canllawiau a ddarperir i awdurdodau lleol ar weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'u rôl o ran cefnogi menywod mudol a'u plant Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol yn llawn. Dylai'r gwerthusiad hwn hefyd ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno canllawiau diwygiedig yn effeithiol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu deall yn gyson ledled Cymru. Tudalen 33

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda Llywodraeth y DU i ymateb i bryderon ynghylch darpariaeth cyngor cyfreithiol o ran statws mewnfudo i fenywod mudol yng Nghymru. Tudalen 37

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall sicrhau y gellir cael mynediad at gyngor cyfreithiol o ansawdd da, drwy weithio gyda rhanddeiliaid i edrych ar enghreifftiau o arfer da, gan gynnwys JustRight Scotland, ac adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor hwn erbyn mis Gorffennaf 2023..... Tudalen 37

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi canllawiau ar gyfer hyfforddiant ar faterion penodol sy'n ymwneud â menywod mudol y gellir eu hymgorffori mewn hyfforddiant rheolaidd ledled Cymru, i wella dealltwriaeth ac i ddileu unrhyw ymddygiad gwahaniaethol posibl a ddangosir gan wasanaethau rheng flaen. Dylid cyhoeddi'r canllawiau hyn erbyn mis Gorffennaf 2023..... Tudalen 40

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r data newydd sydd ar gael drwy'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd i sefydlu llinellau sylfaen i lywio'r gwaith o fonitro a thargedu cyngor a gwasanaethau yn y dyfodol. Dylid cyflawni'r gwaith hwn o fewn y chwe mis nesaf. Tudalen 43

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau, pan fydd yn casglu data am fenywod mudol, bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n digwydd gyda'u data, a sut y bydd eu data yn llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau yn y dyfodol. Tudalen 43

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Heddlu ac awdurdodau lleol, gymryd camau drwy ganllawiau i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y berthynas rhwng rhannu data a pharodrwydd goroeswyr i geisio cymorth. Dylid rhannu'r canllawiau hyn yn eang â sefydliadau arbenigol, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd ehangach a dylent fod ar gael mewn ieithoedd gwahanol. Tudalen 46

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mur gwarchod sy'n cyfyngu ar rannu data rhwng asiantaethau ar y rhai sy'n ceisio cymorth o ran Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd..47

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru fel aelod o'i Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol. Tudalen 50

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio ei Strategaeth ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022-26 i gynnwys adran sy'n ymdrin yn benodol ag anghenion menywod mudol a phlant, a'r rhai sy'n destun yr amod Heb Hawl i Arian Cyhoeddus. Tudalen 50

1. Cyflwyniad

Mae trais yn erbyn menywod a merched yn effeithio'n anghymesur ar fenywod mudol. Gallant wynebu nifer o fathau o gam-drin, gan gynnwys trais domestig, trais rhywiol, trais 'ar sail anrhydedd', priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod a masnachu pobl.

Cefndir

1. Ar 14 Mawrth 2022, cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol (y Pwyllgor) drafodaeth bord gron gyda rhanddeiliaid allweddol i lywio ei ddull gweithredu ar gyfer ei waith ar gam-drin a thrais ar sail rhywedd.¹ Amlygwyd bod menywod mudol yn grŵp allweddol a gaiff ei esgeuluso, nad yw ei anghenion yn cael eu diwallu'n briodol.

2. Dechreuodd y Pwyllgor yr ymchwiliad hwn i edrych ar y rhwystrau penodol y mae menywod mudol yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at wasanaethau a beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau y gall menywod mudol gael mynediad at wasanaethau sydd ag adnoddau llawn i ymdrin ag amrywiaeth o normau ac arferion diwylliannol. **Mae'r manylion llawn am gefndir yr ymchwiliad hwn, gan gynnwys y cylch gorchwyl, ar gael ar dudalen hafan yr ymchwiliad.**

Casglu tystiolaeth

3. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth drwy ymgynghoriad cyhoeddus, sesiynau tystiolaeth lafar a grwpiau ffocws wedi'u trefnu gan Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd.

4. Fe wnaeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (y Gweinidog), y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog Iechyd) a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol (y Dirprwy Weinidog) roi tystiolaeth ar 27 Mehefin 2022.²

5. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y crynodeb o'r gwaith ymgysylltu³. Gweler yr Atodiad ar gyfer rhestr o'r dystiolaeth a gasglwyd.

¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 14 Mawrth 2022

² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022

³ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

6. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn. Yn benodol mae'r Pwyllgor am dalu teyrnged i'r menywod mudol sydd â phrofiad byw o drais ar sail rhywedd a thrais rhywiol a rannodd eu tystiolaeth ddirdynol gyda ni yn ddewr, a gyda'r fath onestrwydd.

Os yw unrhyw un o'r materion yn yr adroddiad hwn wedi effeithio arnoch chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod, mae nifer o sefydliadau a all roi cyngor diduedd yn rhad ac am ddim i chi:

- **Bawso**: 0800 7318147
- Llinell gymorth Byw Heb Ofn: 0808 80 10 800
- **Cyngor Ffoaduriaid Cymru**: 0808 196 7273

Cefndir y polisi

7. Mae menywod sydd â statws mewnfudo ansicr, neu y mae eu statws mudo yn dibynnu ar briod neu gyflogwr, yn aml mewn mwy o berygl o drais a chamfanteisio. Mae'r menywod hyn wedi dod i'r DU mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys:

- ar fisa sy'n rhoi caniatâd iddynt aros heb hawl i arian cyhoeddus;
- fel ffoadur yn ceisio lloches;
- ar fisa sy'n gysylltiedig â'u priod;
- fel dioddefwr masnachu pobl;
- ar fisa â therfyn amser (fisa myfyriwr neu waith) sydd wedi dod i ben.

8. Mae mewnfudo yn faes polisi a gedwir yn ôl, felly cyfrifoldebau San Steffan a Llywodraeth y DU ydynt. Ond mae nifer o wasanaethau a chyfrifoldebau datganoledig ynghlwm â gweithio gyda menywod mudol.

9. Un o'r prif bolisiau sy'n effeithio ar y maes gwaith hwn yw Heb Hawl i Arian Cyhoeddus (NRPF). O dan adran 115 o *Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999*, ni fydd gan berson 'hawl i arian cyhoeddus' pan fydd 'yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo'. Ystyr hyn yw nad oes ganddynt hawl i'r mwyafrif o fudd-daliadau lles, gan gynnwys cymorth incwm, budd-daliadau tai nac amrywiaeth o lwfansau a chredydau treth. Goblygiadau posibl y statws hwn yw bod menywod Heb Hawl i Arian Cyhoeddus (NRPF) yn methu â chael mynediad at wasanaethau, gan gynnwys i lety â chymorth arbenigol.

10. Nid oes gan ddioddefwyr Trais ar Sail Rhywedd a Thrais Rhywiol sy'n cael eu cyfyngu gan y statws Heb Hawl i Arian Cyhoeddus yr hawl i gael budd-dal tai i dalu am le mewn lloches, a all gostio rhwng £300-£400 yr wythnos; neu eu bod yn methu â thalu costau e.e. rhent lle mae cyflawnwr trosedd wedi cael ei dynnu o'r cartref.

11. Mae gwaith ymchwil yn cadarnhau bod menywod mudol yn fwy tebygol na dynion o fod ar fisa priod ac felly'n dibynnu ar eu gŵr am eu statws mewnfudo.⁴ Gall hyn olygu eu bod yn arbennig o agored i drais domestig, gan ei fod yn lleihau eu gallu i adael partner sy'n eu cam-drin.

12. Roedd y Rheol Trais Domestig yn 2002 yn galluogi i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig ar fisâu priod wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros mewn amgylchiadau pan fo eu perthynas yn chwalu oherwydd trais domestig.⁵ Roedd y Consesiwn Trais Domestig Anghenus a gyflwynwyd yn 2012 yn rhoi hawl i ymgeiswyr y Rheol Trais Domestig gael tri mis o ganiatâd dros dro a'r hawl i gael budd-daliadau y wladwriaeth cyfyngedig a thai dros dro.⁶ Dim ond i'r rhai sy'n anghenus y mae'r Consesiwn Trais Domestig Anghenus yn gymwys. Mae'n eu diffinio fel pobl nad oes ganddynt fynediad at arian neu sy'n dibynnu ar drydydd parti i dalu costau byw hanfodol, megis llety sylfaenol a bwyd.

13. Gall mynediad i loches gael ei ohirio i fenyw sy'n bodloni meini prawf y Consesiwn Trais Domestig Anghenus, nes bod y Swyddfa Gartref wedi cadarnhau'r cais. At hynny, bydd angen i lawer o fenywod aros mewn lloches tu hwnt i'r tri mis.

Effaith y newidiadau hyn

14. Nid yw'r rheol Trais Domestig a'r Consesiwn Trais Domestig Anghenus yn ymestyn i ddioddefwyr a goroeswyr mudol nad ydynt ar fisâu priod.

15. Yn 2013, fe wnaeth Partneriaeth Mewnfudo Cymru a Phrifysgol Caerdydd gyhoeddi 'Torri Tir Newydd', sef adroddiad yn ymchwilio i drais yn erbyn menywod a merched o gymunedau ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr yng Nghymru.⁷ Nododd yr adroddiad sut y mae menywod a merched sy'n wynebu trais eithafol a chamfanteisio naill ai'n rhy ofnus i roi gwybod i rywun am y trais, yn methu mynd i loches menywod oherwydd eu statws mewnfudo, neu nid ydynt yn ymwybodol o ba gymorth sydd ar gael iddynt. Canfu bod llawer o fenywod a merched sy'n ceisio lloches ac sy'n ffoaduriaid a mewnfudwyr yn wynebu rhwystrau penodol rhag cael

⁴ Y Cyd-gyngor er Lles Mewnfudwyr, We Are Here: routes to regularisation for the UK's undocumented population, Ebrill 2021

⁵ Y Swyddfa Gartref, Victims of domestic violence and abuse, Tachwedd 2021

⁶ Y Swyddfa Gartref, Destitute domestic violence (DDV) concession, Chwefror 2018

⁷ Partneriaeth Mewnfudo Cymru a Phrifysgol Caerdydd, Torri Tir Newydd, Tachwedd 2013

mynediad at gymorth, ac mae rhai o'r rhwystrau yn deillio o'u cymunedau a'u pwysau diwylliannol, ond hefyd oherwydd nad oes gan lawer o fenywod mudol fynediad at arian cyhoeddus, ac felly maent yn wynebu'r dewis anodd o ddod yn anghenus neu aros gyda'u cam-driniwr.

16. Cafodd yr adroddiad 'Torri Tir Newydd' ei adolygu gan Ganolfan Gymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru gyda chyllid gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn 2021. Canfu bod rhywfaint o gynnydd gwirioneddol wedi'i wneud o ran deddfwriaeth yn awdurdodaethau a pholisi, canllawiau a phrosesau llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU sydd wedi rhoi sylw i sawl agwedd ar argymhellion Torri Tir Newydd.⁸ Fodd bynnag, nododd yr adolygiad fod rhai heriau'n parhau, yn enwedig y materion y mae'r rhai Heb Hawl i Arian Cyhoeddus yn eu hwynebu.

17. Ar 24 Mai 2022 cyhoeddodd y Sefydliad Ymchwil i Amrywiaeth Uwch ym Mhrifysgol Birmingham ganfyddiadau astudiaeth ar Drais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd a mudo gorfodol yng Nghymru. Daeth adroddiad SEREDA (Trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd yn yr argyfwng ffoaduriaid: o ddadleoli i gyrraedd) i'r casgliad, er bod llawer o wasanaethau a allai fynd i'r afael ag anghenion unigolion lleiafrifol sy'n profi Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd, fod pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd ar gyfer ymfudwyr wedi eu gorfodi, gan gynnwys y rhai heb ddogfennau.⁹

Strategaethau Llywodraeth Cymru

18. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio nifer o fframweithiau i ategu arfer da wrth weithio gyda menywod a merched mudol y mae Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd wedi effeithio arnynt.

19. Yn unol â *Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*¹⁰ (Deddf 2015) cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol gyntaf ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VASDASV) 2016-21.¹¹ Roedd yn cydnabod pwysigrwydd ystyried effaith Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd ar gymunedau mudol, gan gynnwys sut mae gwahanol fathau o gam-drin yn effeithio'n anghymesur arnynt, a'r rhwystrau sy'n bodoli o ran cael mynediad at gymorth.

⁸ Adolygiad o Torri Tir Newydd, Awst 2021.

⁹ Forced migration and sexual and gender-based violence: findings from the SEREDA project in Wales, Mai 2022

¹⁰ Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

¹¹ Llywodraeth Cymru, Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016-2021, Tachwedd 2016

20. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddrafft newydd ar gyfer 2022-26 ar ddiwedd 2021. Cyhoeddwyd y strategaeth newydd ym mis Mai 2022.¹²

21. Mae Deddf 2015 yn pennu bod rhaid i Lywodraeth Cymru benodi Cynghorwr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i weithio ochr yn ochr â Gweinidogion wrth fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ym mis Gorffennaf 2022, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru bod Yasmin Khan a Johanna Robinson wedi'u hail-benodi, ar sail rhannu swyddi.¹³

22. Yn ogystal â'r strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae sawl cynllun arall yn gysylltiedig â thrais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd, gan gynnwys Cenedl Noddfa¹⁴ a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru¹⁵.

Darparu gwasanaethau yng Nghymru

23. Mae gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu cyllido o gymysgedd o gyllidebau wedi eu datganoli a heb eu datganoli, grantiau a rhoddion elusennol gyda lefelau a hirhoedledd cyllid amrywiol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o dan wahanol raglenni, gan gynnwys llety lloches drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl, y Grantiau Gwasanaethau Cam-drin Domestig rhanbarthol, yn ogystal â chyllido awdurdodau lleol yn uniongyrchol i gomisiynu gwasanaethau eraill ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr.

24. Yn aml, gwasanaethau arbenigol sydd yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion penodol menywod mudol. Yn aml, gwasanaethau arbenigol, neu wasanaethau 'gan ac ar gyfer'¹⁶, yw'r unig le y gall dioddefwyr sydd â statws Heb Hawl i Arian Cyhoeddus droi ato pan fo arnynt angen cymorth, gyda llawer yn darparu lloches a mathau eraill o gymorth llety drwy gyllid anstatudol.

25. Yng Nghymru, Bawso yw'r prif sefydliad arbenigol sy'n rhoi gofal i fenywod mudol sydd wedi profi Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd. Darperir ei wasanaethau ar draws Cymru ac

¹² Llywodraeth Cymru, Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026, Mai 2022

¹³ Datganiad Ysgrifenedig, Gorffennaf 2022

¹⁴ Llywodraeth Cymru, Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, Ionawr 2019

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Mehefin 2022

¹⁶ Mae gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol yn sefydliadau sy'n cael eu cynllunio a'u darparu gan ac ar gyfer pobl sydd mewn lleiafrif (gan gynnwys hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol, crefydd, neu oedran). Bydd gwreiddiau'r gwasanaethau hyn yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a gallant gynnwys adferiad cyfannol cofleidiol a chymorth sy'n diwallu ystod lawn o anghenion dioddefwr/goroeswr, y tu hwnt i gymorth cam-drin domestig yn unig.

maent yn cynnwys llochesi pwrpasol, tai diogel, cyfleusterau siop un-stop, cefnogaeth amrywiol ar gyfer goroeswyr yn y gymuned, a phrosiectau arbenigol i fynd i'r afael â thrais a chamfanteisio ar fenywod a merched, dynion a bechgyn.

26. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau comisiynu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n cydnabod bod llawer o wasanaethau arbenigol yn cael eu darparu gan sefydliadau trydydd sector bach, ac felly mae risg o fewn dulliau comisiynu rhanbarthol y gall darparwyr o'r fath fod o dan anfantais yn sgil arferion caffael ar raddfa fawr. Mae'r canllawiau yn nodi y dylai comisiynu fod yn seiliedig ar yr egwyddor "na ddylid troi'r un goroeswr i ffwrdd o wasanaethau cymorth hanfodol".¹⁷

¹⁷ Llywodraeth Cymru, Canllawiau statudol ar gyfer comisiynu gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru, Mai 2019

2. Y prif heriau y mae menywod mudol yn eu hwynebu

27. Y prif heriau sy'n wynebu menywod mudol yw: heriau iaith a chyfathrebu; normau diwylliannol a/neu ganfyddiadau o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; a'u statws mewnfudo ansicr.

laith a chyfathrebu

28. Fe wnaeth y mwyafrif o dystion, gan gynnwys cynrychiolwyr Bawso, clymblaid Menywod Mudol Step Up, a Southall Black Sisters, nodi anawsterau iaith fel un o'r prif rwystrau i fenywod o ran ymwybyddiaeth, atal a mynediad at wasanaethau.

29. Esboniodd cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws yr anawsterau a all godi pan fydd menyw fudol sydd â rhwystr iaith eisiau rhoi gwybod am achos o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Os oes angen cyfieithydd, rhaid bod yn ofalus os yw'r cyfieithydd yn perthyn i'r unigolyn neu os yw'n aelod o'r gymuned; mae'r risgiau'n cynnwys torri cyfrinachedd a/neu gamliwio, boed yn fwriadol neu beidio.

30. Dywedodd Joanne Hopkins o lechyd Cyhoeddus Cymru mai'r her sy'n sefyll allan yw'r rhwystr iaith. Nododd fod mynediad at gyfieithu o ansawdd da yn ofyniad allweddol wrth gael mynediad at gymorth¹⁸. Dadleuodd bod angen grymuso pobl trwy ddewis, er enghraifft os ydynt am gael cyfieithydd benywaidd, rhywun o'u cymuned eu hunain, neu dafodiaith benodol; mae'r modd y caiff ystyr neges ei gyfleu (yn hytrach na'r cyfieithiad llythrennol) hefyd yn bwysig.

31. Dywedodd Naomi Alleyne o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mai un o'r anawsterau yw sicrhau bod gennych ddigon o gyfieithwyr i ddarparu'r amrywiaeth helaeth o wasanaethau sy'n ofynnol ar yr adeg y bydd ei angen arnoch.¹⁹

32. Gofynnem hefyd i'r Dirprwy Brif Gwnstabl Amanda Blakeman, sef arweinydd gweithredol y Tasglu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, pa hyfforddiant y mae swyddogion ar y rheng flaen yn ei gael ynghylch iaith.²⁰ Dywedodd hi fod pob swyddog yn cael ei hyfforddi ar ddefnyddio Language Line, y gwasanaeth dehonglydd ffôn, a bod technoleg symudol yn golygu bod modd cael mynediad at y gwasanaethau hyn yn lleoliad y

¹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 120

¹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 156

²⁰ Llythyr at y Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman, 20 Gorffennaf 2022

dioddefwr/troseddwr ac yn y ddalfa. Nododd y bydd heddluoedd hefyd yn defnyddio gwasanaethau Bawso i hwyluso cyfathrebu os oes angen.²¹

33. Fe wnaethom ofyn i'r Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman i egluro ym mha amgylchiadau y mae heddluoedd yn debygol o fod angen gwasanaethau iaith a chyfieithu ar y pryd.²²

Dywedodd wrthym:

*"[...] dim ond i gynorthwyo gyda dehongliadau lle maen nhw eisoes yn ymwneud â'r unigolyn y mae heddluoedd fel arfer yn defnyddio BAWSO. Er enghraifft, lle maent yn eu cynorthwyo nhw i adrodd am ddigwyddiadau wrth yr heddlu. Gallant eu defnyddio hefyd i lenwi ffurflen Cam-drin Domestig Stelcio neu Aflonyddu neu i gael gwybodaeth yn y lle cyntaf i helpu'r Heddlu i ddarganfod pa droseddau (os o gwbl) mae'r unigolyn am adrodd amdanynt."*²³

34. Fe wnaeth Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon, Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities, Comunidade de Lingua Portuguesa Wrecsam, Vesta SFS, Bawso, Sefydliad Henna, a Women Connect First rannu eu hymateb â ni i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol newydd. Dywedon nhw:

*"The strategy provides no information about how the Welsh Government intends to ensure that awareness-raising campaigns, as well as information about rights and support services, reach individuals, families and communities who are not fluent in English or Welsh."*²⁴

Barn Llywodraeth Cymru

35. Fe ofynnnon ni i'r Gweinidog pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau'r rhwystrau iaith sy'n atal pobl rhag cael mynediad at wasanaethau. Gan gyfeirio at y gefnogaeth a roddir gan wasanaethau arbenigol sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, dywedodd Jane Hutt wrthym fod y cymorth yn cynnwys mynediad at iaith a dehongli. Dywedodd bod yn rhaid ystyried hyn o ran y gwasanaethau maent yn eu darparu.²⁵

²¹ Llythyr gan y Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman, 24 Awst 2022

²² Llythyr at y Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman, 10 Hydref 2022

²³ Llythyr gan y Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman, 14 Hydref 2022

²⁴ Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon, Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities, Comunidade de Lingua Portuguesa Wrecsam, Vesta SFS, Bawso, Sefydliad Henna, a Women Connect First, Tystiolaeth ysgrifenedig

²⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 88

36. Cadarnhaodd swyddog o Lywodraeth Cymru bod Language Line yn rhoi mynediad i gyfieithwyr o fewn munudau. Nododd hefyd mai rhan o'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yw: "to make sure that all health services reflect on the importance of the consultation and the engagement with health services, that the offer can be taken up in whatever language the person feels most comfortable in."²⁶

37. Tynnodd y Gweinidog lechyd sylw at ddeunydd yr ymgyrch 'Ask for ANI' a ddosbarthwyd i fferyllfeydd cymunedol.²⁷ Cytunodd Eluned Morgan bod modd gwneud mwy i sicrhau bod deunyddiau ar gael mewn ieithoedd gwahanol, ac ychwanegodd: "...that is something that we'll take up, partly as a result of you bringing this matter to our attention."²⁸

Normau diwylliannol

38. Efallai nad yw llawer o fenywod yn cydnabod eu bod mewn perthynas gamdriniol, oherwydd y dirwedd ddiwylliannol, gymdeithasol a chrefyddol y maent wedi'u magu ynddi ac y maent yn parhau i fyw ynddi.

39. Nododd Hannana Siddiqui o Southall Black Sisters faterion y gall menywod mudol eu hwynebu sy'n benodol i'w cymunedau:

*"[...] there may be cultural norms such as notions of shame and honour that may be used, or religious and cultural laws that may be used to justify violence against women, because it's based on very conservative notions of gender roles. So, you do have certain forms of harmful practices that exist within minority communities that don't exist elsewhere. So, things like forced marriage, honour-based violence and FGM, but there are also high levels, like other communities, of domestic and sexual violence as well, which they share with other communities."*²⁹

Cam-drin mewn fudwyr

40. Mae deunydd darllen presennol, gan gynnwys gwaith ymchwil gan Ganolfan Angelou ar ran Comisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr³⁰, wedi dangos y bydd y rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig yn aml yn defnyddio statws mewn fudo ansicr dioddefwr i arfer rheolaeth

²⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 89-91

²⁷ Mae Ask for ANI (Action Needed Immediately) yn gynllun geiriau cod a ddatblygwyd gan y Swyddfa Gartref i ganiatáu i ddioddefwyr cam-drin domestig ofyn yn gyfrinachol am gymorth yn syth mewn fferyllfeydd sy'n cymryd rhan.

²⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 98

²⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Mai 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 18

³⁰ Domestic Abuse Commissioner, Adroddiad Safety Before Status, Hydref 2021

drosto. Mae cam-drin mewnfudwyr yn dod o fewn diffiniad cam-drin economaidd ac mae'n fath o reolaeth drwy orfodaeth. Dyma rai o'r prif enghreifftiau:

- ffugio statws mewnfudo dioddefwr a/neu ddod â rhywun i'r DU gyda fisa anghywir i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn agored i orfodaeth fewnfudo;
- atal pasbortau neu ddogfennau mewnfudo allweddol;
- camreoli statws neu gais mewnfudo dioddefwr yn fwriadol er mwyn iddynt aros yn rhy hir;
- defnyddio statws mewnfudo dioddefwr/goroeswr yn fwriadol i'w reoli neu ei fygwth (drwy roi gwybod i'r heddlu amdanynt).

41. Dywedodd Dr Alexandria Innes o City University of London, fod ofn tynnu statws mewnfudo yn aml yn fwy na'r ofn o gam-drin.³¹

42. Dywedodd Jenny Phillimore, Athro Ymfudo ac Uwchamrywiaeth ym Mhrifysgol Birmingham, wrthym:

"There's very clear evidence that an individual's migration status can make them more vulnerable to domestic violence, and make it more difficult for them to escape an abusive relationship."

43. Ychwanegodd yr Athro Phillimore fod cam-drin mewnfudo yn golygu bod menywod yn ddi-rym os ydyn nhw'n ddibynnol ar rywun am gartref, am do uwch eu pennau, ac am beidio cael eu halltudio a chywilyddu eu teulu cyfan.³²

44. Esboniodd Dr Alexandria Innes:

"Any migrant women might face a lack of knowledge regarding standardised reporting practices and cultural or functional norms. Lack of language ability can also prevent reporting: not just on a practical level, but also in terms of possessing the confidence to report abuse and seek help".³³

³¹ Dr Alexandria Innes, Canolfan Trais a Chymdeithas City University of London, Tystiolaeth ysgrifenedig

³² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Mai 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 21

³³ Dr Alexandria Innes, Canolfan Trais a Chymdeithas City University of London, Tystiolaeth ysgrifenedig

Ein barn ni

Mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod trais ar sail rhywedd a cham-drin yn effeithio ar fenywod mudol yn anghymesur oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys normau diwylliannol a cham-drin mewnfudo. Clywsom dystiolaeth rymus ynghylch sut y gallai menywod mudol fod yn anymwybodol o'u hawliau; yn anymwybodol o'r hyn sy'n gyfystyr ag ymddygiad camdriniol; ac yn methu â gofyn am gymorth, neu'n amharod i wneud hynny, o ganlyniad i reolaeth sy'n cael ei roi gan gyflawnwyr sy'n defnyddio statws mewnfudo fel rhwystr, yn ogystal â'r heriau sy'n wynebu'r rhai Heb Hawl i Arian Cyhoeddus. Canlyniad y cyfuniad hwn o ffactorau yw na ellir trin y grŵp hwn o fenywod gyda'r un dull eang â gweddill y boblogaeth ac mae angen dull mwy pwrpasol yn lle hynny, sy'n ystyried eu hanghenion penodol.

Er bod yr adolygiad o'r adroddiad Torri Tir Newydd yn awgrymu bod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai agweddau ar y gwaith hwn, siomedig oedd clywed bod llawer o'r heriau yn parhau. Mae adroddiad SEREDA Prifysgol Birmingham yn cyfeirio at brinder y gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi unigolion o grwpiau lleiafrifol sy'n dioddef Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd, sydd hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y dystiolaeth a glywsom. Yn yr adroddiad, dywedwyd y dylid manteisio ar gyfleoedd ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd ar gyfer ymfudwyr wedi eu gorfodi.

Rhwystrau iaith

Roedd yr heriau a gyflwynir gan iaith yn thema graidd drwy gydol ein hymchwiliad. Gwelsom yr anawsterau cyfathrebu yn uniongyrchol yn ystod ein sesiynau grŵp ffocws, a dywedwyd wrthym fod rhwystrau iaith yn her allweddol i fenywod mudol y gall goblygiadau sylweddol fod iddynt o ran codi ymwybyddiaeth, atal a sicrhau mynediad at wasanaethau, ac ymdrechion rhwystredig gan gyrff cyhoeddus i estyn allan at gymunedau mudol.

Clywsom bryderon am argaeledd cyfyngedig gwasanaethau cyfieithu ar y pryd i fenywod wrth iddynt gael mynediad at wasanaethau, a thystiolaeth anecdotaidd bod rhai menywod yn cael eu gorfodi i ddibynnu ar aelodau o'r gymuned neu'r teulu yn lle hynny. Gall hyn arwain at gamliwio – yn enwedig os yw materion cyfreithiol yn cael eu trafod – ac ni ddylid dibynnu arnynt yn lle gwasanaethau cyfieithu ar y pryd proffesiynol.

Rydym yn nodi argaeledd Language Line a defnydd y gwasanaethau cyhoeddus ohono, gan gynnwys yr Heddlu. Clywsom hefyd fod yr Heddlu'n troi at Bawso ar gyfer anghenion cyfieithu ar y pryd, ond fe wnaethon nhw ddweud wrthym bod hyn yn digwydd mewn achosion penodol yn unig. Mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod teulu a ffrindiau yn cael eu defnyddio fel

cyfieithwyr ar y pryd mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd proffesiynol ar gael pan fydd ei angen, ar bob cam o'r broses o ymgysylltu â gwasanaethau cymorth.

O ystyried y potensial ar gyfer camliwio, nid yw'n briodol dibynnu ar aelodau o'r gymuned neu'r teulu i ddarparu'r cyfieithu hwn. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru'n mynd i'r afael â'r materion hyn. Un opsiwn posibl yw creu cyfeiriadur o gyfieithwyr, y gall pob sefydliad a allai ddod i gysylltiad â'r menywod hyn gael mynediad ato.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ffordd y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r problemau sy'n cael eu hamlygu ynghylch iaith a darparu cyfieithu ar y pryd ar gyfer menywod mudol. Rhaid i hyn gynnwys nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i atal asiantaethau statudol rhag defnyddio aelodau o'r teulu a/neu Bawso fel cyfieithwyr, heblaw mewn achosion brys neu argyfyngus. I gefnogi asiantaethau i wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried creu cyfeiriadur o gyfieithwyr ar y pryd cydnabyddedig hefyd.

Codi ymwybyddiaeth

45. Gall normau diwylliannol a rhwystrau iaith oll atal ymdrechion i godi ymwybyddiaeth yn y cymunedau mudol o'u hawliau a lle gallant gael mynediad at wasanaethau.

46. Mae Strategaeth Drais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol newydd Llywodraeth Cymru yn nodi bod codi ymwybyddiaeth yn arf allweddol i hwyluso atal, a bod ei ddull yn ceisio "hwyluso newid mewn ymddygiad ar lefel cymdeithas gyfan drwy drafodaeth gyhoeddus a fyddai'n dadnormaleiddio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r agweddau sy'n ei gefnogi."³⁴

47. Fe wnaeth nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Bawso, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymorth i Ferched Cymru (WWA), hefyd sôn yn eu tystiolaeth am bwysigrwydd gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau am strategaethau codi ymwybyddiaeth.

48. Soniodd Wanjiku Mbugua-Ngotho o Bawso am yr heriau yn ymwneud â chyrraedd dioddefwyr a chodi ymwybyddiaeth mewn cymunedau, a nododd: "if we're going to look for a way of raising awareness—this is again on the prevention agenda—we're going to go to spaces where these people attend, where people are allowed to go to regularly."³⁵

³⁴ Llywodraeth Cymru, Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026, Mai 2022

³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 77

49. Esboniodd rhai pobl a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws, er ei bod yn bwysig bod amrywiaeth o wasanaethau cymorth, y gellir cael gafael arnynt mewn amrywiaeth o ffyrdd ar gael, y gall allgáu digidol hefyd fod yn rhwystr sylweddol i lawer. Cytunwyd bod codi ymwybyddiaeth yn effeithiol yn ymwneud â defnyddio amrywiaeth o sianeli i gyrraedd pobl sydd â lefelau amrywiol o anghenion a galluoedd, sydd o bosibl yn cael gafael ar wybodaeth mewn ffyrdd gwahanol. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebu am y gefnogaeth sydd ar gael ar fysiau, drwy grwpiau cymunedol, cyfryngau traddodiadol fel teledu a radio, yn ogystal â'r cyfryngau cymdeithasol. Pwysleisiodd y cyfranogwyr fod angen sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd gwahanol.³⁶

50. Tynnodd y Gweinidog sylw at yr ymgyrchoedd Byw Heb Ofn, sy'n "rhoi cyngor ymarferol i'r rhai a all fod yn dioddef camdriniaeth ac yn tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i alluogi ffrindiau, teulu a'r gymuned ehangach i adnabod achosion o gam-drin a chymryd camau gweithredu diogel."³⁷

51. Fodd bynnag, nid oedd gan y menywod y buom yn siarad â nhw yn ein grwpiau ffocws fawr o ymwybyddiaeth o'r ymgyrch a chodwyd cwestiwn ynghylch ymddiriedaeth ganddynt. Dywedodd un cyfrannwr: "The time it takes to earn trust for someone to feel empowered to use that helpline is massive."³⁸

52. Nododd Race Council Cymru (RCC) na ellir tanbrizio effaith ymgyrchoedd fel ymgyrch 'Ddylai neb fod yn ofnus gartre' Llywodraeth Cymru, a lansiwyd yn ystod y pandemig i roi gwybod i ddioddefwyr sut y gallent gael gafael ar gymorth a chefnogaeth hyd yn oed yn ystod cyfyngiadau symud cenedlaethol.³⁹

53. Tynnodd Andrea Cleaver o Gyngor Ffoaduriaid Cymru sylw at eu canllawiau lloches:

*"We fund people who are in the asylum system to guide others going through the asylum system. So, it's that peer-to-peer coaching, mentoring and support. And that helps to break down those trust barriers and to help people to integrate quicker."*⁴⁰

54. Cyfeiriodd yr Athro Phillimore at fentrau llwyddiannus dramor:

³⁶ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

³⁷ Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ysgrifenedig, Mehefin 2022

³⁸ Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

³⁹ Race Council Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

⁴⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 107

*"[...] a lot of the initiatives that have been successful in other countries, particularly Sweden and Turkey, are actually raising people's awareness about what constitutes violence, and what their rights and entitlements are."*⁴¹

Strategaethau atal

55. Mae'r Strategaeth newydd ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol yn nodi bod gwaith atal wedi'i gynllunio "er mwyn sicrhau y caiff goroeswyr eu cefnogi'n gyfannol fel unigolion, a bod effaith ehangach ar y gymdeithas sy'n lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y lle cyntaf."⁴²

56. Wrth siarad am atal, pwysleisiodd lechyd Cyhoeddus Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod angen gweithio gyda chyflawnwyr i fynd i'r afael â normau diwylliannol. Fe wnaeth Joanne Hopkins o lechyd Cyhoeddus Cymru ddyfynnu adroddiad o 2021 gan Uned Atal Trais Cymru a adolygodd 'Beth sy'n gweithio i atal VAWDASV'.⁴³ Fe wnaeth yr adroddiad argymhell bod angen ymchwil pellach i ystyried rhaglenni effeithiol ar gyfer atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn cymunedau mudol.

57. Pwysleisiodd Bawso bwysigrwydd gweithio gyda chymunedau, gan esbonio nad yw menywod mudol yn cael eu bygwth gan gam-drin gwrywaidd yn unig, ond hefyd cam-drin diwylliannol fel priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) a thrais ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir.⁴⁴

58. Dywedodd Wanjiku Mbugua-Ngotho o Bawso:

*"The prevention agenda is not there, because we're funded to work when the issue has already happened, when domestic abuse has taken place. We're supporting people who are already going through domestic abuse, but what about capturing them long before it happens? The work on prevention is not there, and I think that's something that the Welsh Government could fund."*⁴⁵

59. Nododd Sara Kirkpatrick o Cymorth i Fenywod Cymru fod y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymadau mewn perthynas ag ymyriadau â'r rhai sy'n

⁴¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Mai 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 16

⁴² Llywodraeth Cymru, Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026, Mai 2022

⁴³ lechyd Cyhoeddus Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

⁴⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 24

⁴⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 23

cyflawni trais a cham-drin, ond ychwanegodd bod angen cysylltu'r gwaith gydag agendâu atal a dulliau cymunedol.⁴⁶

60. Pwysleisiodd bwysigrwydd gwaith atal sy'n digwydd ar lawr gwlad:

*"[...] VAWDASV people seek support from the places that they trust first, and so the prevention agenda and awareness raising have to get into those spaces, not wait until people reach out of those spaces, and that has to be done at a grass-roots level."*⁴⁷

61. Tynnodd RCC hefyd sylw at bwysigrwydd lleisiau goroeswyr wrth ddeall effeithiolrwydd gwasanaethau a systemau cefnogi, ac i'w helpu i wella:

*"Survivors' experiences of protection and support services and systems in Wales are key to understanding their effectiveness and to informing practice and service improvements. Survivors' voices and experiences are also essential to informing prevention work and to ensuring that legislative and policy developments, the National Strategy and National Adviser's Plan place survivors' needs and experiences at the centre."*⁴⁸

62. Mewn ymateb i'n cwestiynau ar weithio gyda'r gymuned ar strategaethau atal a chodi ymwybyddiaeth, soniodd y Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman am bwysigrwydd safbwyntiau goroeswyr er mwyn deall y ffordd orau o ddefnyddio adnoddau.⁴⁹

Barn Llywodraeth Cymru

63. Cyfeiriodd y Gweinidog at sawl dull o godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys adnoddau i athrawon godi ymwybyddiaeth o anffurfio organau cenhedlu benywod; a chontract gyda gwasanaeth arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth ar sail anrhydedd, i ddarparu ugain o sioeau teithiol rhithwir rhad ac am ddim i weithwyr proffesiynol Cymru i fagu hyder wrth herio cam-drin ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod.⁵⁰

64. Dywedodd y Gweinidog fod lleisiau goroeswyr yn "hanfodol" i waith Llywodraeth Cymru ac y bydd "Fframwaith Ymgysylltu â Goroeswyr a llif gwaith dynodedig yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth ar ei newydd wedd."⁵¹ Atgyfnerthodd y neges hon mewn datganiad i gyd-

⁴⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 29

⁴⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 81

⁴⁸ Race Council Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

⁴⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 70

⁵⁰ Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ysgrifenedig, Mehefin 2022

⁵¹ Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ysgrifenedig, Mehefin 2022

fynd â chyhoeddi Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol newydd ar gyfer 2022-2026, pan ddywedodd yn y Cyfarfod Llawn am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi lleisiau goroeswyr “wrth wraidd popeth a wnawn” gan gynnwys drwy ddatblygu “panel craffu a chynnwys llais goroeswyr”.⁵²

Ein barn ni

Mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod gan fenywod mudol sy’n symud i Gymru ddealltwriaeth gyfyngedig o’u hawliau a’r gefnogaeth sydd ar gael iddynt, yn aml. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fenywod heb blant sydd â llai o gyswllt ag ysgolion, ysbytai a gwasanaethau statudol eraill.

Mae ystyriaeth gan lunwyr polisi, yn enwedig gan awdurdodau lleol, ynghylch y ffordd orau o gyfathrebu gyda menywod mudol a chymunedau ehangach yn allweddol wrth roi gwybod i fenywod am eu hawliau a’r gefnogaeth sydd ar gael. Rhaid i wybodaeth ynghylch hawliau, cyfrifoldebau a gwasanaethau cymorth gyrraedd ymhellach mewn cymunedau mudol i ddynion yn ogystal â chyflawnwyr.

Mae Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru sy’n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ac atal i’w groesawu ond, wrth ystyried anghenion menywod mudol, mae rhwystrau ychwanegol sydd angen mynd i’r afael â hwy, gan gynnwys normau diwylliannol, ac effaith cam-drin o ran mewnfudo.

Clywsom yn glir bod angen i strategaethau codi ymwybyddiaeth ac atal ddigwydd ar lawr gwlad, ac nad llythyrau, taflenni neu hyd yn oed gyfathrebu digidol yw’r dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol bob amser.

Ni ellir tanbrizio’r angen i sicrhau mai lleisiau goroeswyr sy’n llunio ein dull o gyfathrebu, nac ychwaith bwysigrwydd gweithio o fewn cymunedau i sicrhau bod negeseuon yn cael eu lledaenu. Gall gwaith o’r fath helpu i fagu ymddiriedaeth a hyder, ac mae’r ddau ohonynt yn hanfodol er mwyn annog dioddefwyr i ddod ymlaen.

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ddatblygu panel craffu a chynnwys llais goroeswyr. Gobeithiwn y byddai gan banel o’r fath ran i’w chwarae mewn rhagor o waith ymgysylltu â chymunedau ar lawr gwlad, gan gynnwys cyflwyno syniadau ar gyfer sut y gellid targedu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn well.

⁵² Y Cyfarfod Llawn, 28 Mehefin 2022 Cofnod y Trafodion, paragraff 388

Mae ymgyrchoedd Byw Heb Ofn yn bwysig, ond ni chlywsom lawer o dystiolaeth argyhoeddiadol o'u heffeithiolrwydd o ran cyrraedd cymunedau mudol. Mae angen teilwra ymgyrchoedd o'r fath i'r gynulleidfa benodol, a bod heriau cyfathrebu ac iaith yn cael eu hystyried fel rhan o'r dull gweithredu.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â goroeswyr trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd o gymunedau mudol, a rhanddeiliaid eraill fel awdurdodau lleol, wrth ddatblygu strategaeth gymunedol ar godi ymwybyddiaeth ac atal, a all ffurfio canllawiau ar gyfer cyrff statudol.

3. Dod o hyd i gymorth

Heb Hawl i Arian Cyhoeddus

65. Her arall a all atal menywod a merched mudol yng Nghymru rhag cael mynediad at wasanaethau yw'r her Heb Hawl i Arian Cyhoeddus. Roedd yr Adolygiad o Torri Tir Newydd yn nodi bod y mater o gyllid ar gyfer darparu lloches i fenywod a merched sy'n ffoaduriaid "yn fater mor fawr yn 2013 ag ydyw yn 2021".⁵³

66. Amlygodd cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws yr heriau y mae rhai Heb Hawl i Arian Cyhoeddus yn eu hwynebu. Cawsom wybod y canlynol: "Y peth cyntaf maen nhw'n ei ofyn yw, "a oes ganddi hi statws?". Os nad oes ganddi hawl i arian cyhoeddus, ni fydd y gwasanaethau Opsiynau o ran Tai yn gallu gwneud dim i'w helpu. Mae'r un peth yn wir am y gwasanaethau cymdeithasol."⁵⁴

67. Rhoddodd un cyfrannwr, sy'n gweithio mewn rôl yn cefnogi menywod mudol sydd â phrofiad o drais yn erbyn menywod, trais domestig a cham-drin rhywiol, enghraifft o geisiwr lloches beichiog Heb Hawl i Arian Cyhoeddus:

*"Mae hi'n llefain bob dydd gan ddweud nad yw hi'n gyfforddus lle mae hi. Mae'r llety yn ofnadwy. Mae mwg yn y gegin, mae drysau wedi torri ac nid yw'n teimlo'n ddiogel. Nid yw'n gwybod pwy yw rheolwr y llety oherwydd ei bod newydd gael ei rhoi yno, ac nid oes neb wedi dod i'w gweld. Gan nad oes ganddi hawl i gael arian cyhoeddus, alla i ddim â gwneud wneud cais am fudd-daliadau na llety iddi. . . Mae hi'n ddiolchgar nad yw hi ar y stryd, ond mae'r tŷ yn wael iawn."*⁵⁵

68. Amlygodd yr Adolygiad o Torri Tir Newydd yn 2021:

*"Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'n yn glir mai cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref yw hyn. Er bod hyn yn wir am fewnfudo, o ran gwasanaethau cymorth, gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gael i'r rheini sydd ag NRPF pe byddai'n dewis gwneud hynny".*⁵⁶

⁵³ Adolygiad o Torri Tir Newydd. Awst 2021

⁵⁴ Crynodeb o ran Ymgysylltu

⁵⁵ Crynodeb o ran Ymgysylltu

⁵⁶ Adolygiad o Torri Tir Newydd. Awst 2021

69. Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) fod pobl Heb Hawl i Arian Cyhoeddus "mae'n ymddangos [...] yn dal i ddisgyn trwy'r bwlch o gyfrifoldeb datganoledig/heb ei ddatganoli".⁵⁷ Nododd Race Council Cymru (RCC):

*"NRPF acts as a serious barrier for survivors experiencing violence and abuse with restricted or insecure immigration status in the UK and must be considered as part of any funding plan to completely end violence against women and girls."*⁵⁸

70. Dywedodd NSPCC Cymru fod plant mudol a rhai o deuluoedd heb hawl i arian cyhoeddus yn anweledig mewn sgysiau am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r rhwystrau o ran cymorth.⁵⁹

71. Cododd RCC, Cymorth i Fenywod Cymru a Bawso ill tri bryderon hefyd y gallai nifer y menywod sy'n destun Heb Hawl i Arian Cyhoeddus godi o ganlyniad i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, ehangu gwasgariad ceiswyr lloches a newidiadau deddfwriaethol fel Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022. Dywedodd RCC:

*"...the threat to EU women's rights to public services if they are unable to apply for EU settled status leads to uncertainty and loss of basic human rights that EU legislation has progressed and protected, as uncertainty remains over the future of the Human Rights Act."*⁶⁰

72. Dengys data Bawso, yn y flwyddyn ariannol 2019-20, arweiniodd 164 o ymholiadau am gefnogaeth i oroeswyr Heb Hawl i Arian Cyhoeddus at gefnogi 76 defnyddiwr gwasanaethau (46 y cant). Yn y flwyddyn ariannol 2020-2021, cafwyd 219 o atgyfeiriadau, a rhoddwyd cefnogaeth i 98 o fenywod (45 y cant).⁶¹

73. Mae data ynghylch aelodaeth gan Gymorth i Fenywod Cymru yn dangos, yn 2020-21, roedd cynnydd o 29 y cant yn nifer y goroeswyr y gwrthodwyd man lloches iddynt o ganlyniad i ddiffyg adnoddau, o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.⁶²

74. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn nodi cefnogaeth i greu cronfa benodol i gefnogi'r rhai Heb Hawl i Arian Cyhoeddus. Awgrymodd Bawso y gallai cronfa o'r fath fod ar gael i wasanaethau

⁵⁷ Iechyd Cyhoeddus Cymru, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁵⁸ Race Council Cymru, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

⁵⁹ [Tystiolaeth ysgrifenedig NSPCC](#)

⁶⁰ Race Council Cymru, [tystiolaeth ysgrifenedig](#); [Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymorth i Fenywod a Bawso](#)

⁶¹ [Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymorth i Fenywod a Bawso](#)

⁶² [Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymorth i Fenywod a Bawso](#)

cymorth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) drwy'r gronfa VAWDASV bresennol, drwy godiad a chlustnodi. Roedd yn awgrymu'r canlynol:

"The purpose of the fund would be to enable VAWDASV support services to cover the accommodation and support costs of supporting survivors with NRPF. This part of the fund would be administered centrally (either by the Welsh Government or commissioned to a specialist service such as BAWSO) and would be accessible only to service providers (not to individual service users)."

75. Tynnodd y dystiolaeth gan JustRight Scotland, sylw at y modd y mae yr Alban yn ymdrin â'r mater hwn. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban strategaeth i wella cymorth i bobl Heb Hawl i Arian Cyhoeddus o'r enw 'Ending Destitution Together'. Caiff y Strategaeth ei harwain gan egwyddorion sy'n ymwneud ag atal, partneriaeth a phersonoleiddio, a'i nodau yw "[...] provide a basic safety net in times of crisis; access to advice and advocacy; and to ensure inclusive approaches to support people and communities."⁶³

76. Bydd Llywodraeth yr Alban yn darparu'r strategaeth mewn partneriaeth â llywodraeth leol a buddsoddiad cychwynnol o £500,000 ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Mae'r camau'n cynnwys:

- treialu Cronfa Galedi i gynorthwyo pobl heb hawl i arian cyhoeddus sy'n wynebu sefyllfaoedd argyfyngus;
- cynyddu'r cymorth ariannol a chymorth ehangach gan yr awdurdod lleol i deuluoedd amddifad sydd â phlant, ac oedolion agored i niwed;
- darparu canllawiau wedi'u diweddarau a hyfforddiant i ategu darpariaeth gwasanaethau awdurdodau lleol i bobl heb hawl i arian cyhoeddus;
- gwella mynediad at wasanaethau iechyd sylfaenol a gwasanaethau iechyd meddwl; a
- buddsoddi mewn cyngor cyfreithiol diagnostig a ddarperir mewn partneriaeth â chymorth eiriolaeth i bobl heb hawl i arian cyhoeddus a chynyddu mynediad at gyngor mewnfudo arbenigol i helpu awdurdodau lleol sy'n cynorthwyo pobl heb hawl i arian cyhoeddus.

77. Yn 2020, lansiodd y Swyddfa Gartref brosiect peilot, sef y Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr Mudol (SMV).⁶⁴ Pwrpas y Cynllun oedd darparu rhwyd gymorth i ddioddefwyr cam-drin

⁶³ Llywodraeth yr Alban, Ending Destitution Together

⁶⁴ Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr Mudol

domestig mudol heb hawl i arian cyhoeddus ac, o ganlyniad, nad ydynt yn gallu dod o hyd i lety diogel er mwyn dianc rhag perthnasoedd lle ceir cam-drin. Caiff y Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr Mudol ei weithredu gan Southall Black Sisters gyda sefydliadau partner ar draws y DU, gan gynnwys Bawso yng Nghymru. Roedd y cymorth a gynigiwyd gan y Cynllun Cymorth hwn yn cynnwys:

- llety diogel am hyd at 12 wythnos, a 4 wythnos ychwanegol mewn achosion eithriadol o galedi;
- taliadau cynhaliaeth wythnosol;
- cefnogaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig a gwasanaeth cyfeillio a chymorth llesiant priodol arall; a
- chyfeiriad at ymarferwyr cyfraith mewnfudo cymwys i roi cyngor a chynrychiolaeth.

78. Nododd Bawso fod y Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr Mudol yn enghraifft wirioneddol dda o sut y gall cronfa dda weithio, a'r gwahaniaeth y gall ei wneud i gefnogi menywod, a'i fod wedi defnyddio'r gronfa i gefnogi 85 o fenywod yn y flwyddyn flaenorol.⁶⁵

Barn Llywodraeth Cymru

79. Mae dod o hyd i ateb i'r heriau a grëir gan y cyfyngiad Heb Hawl i Arian Cyhoeddus wedi'i restru fel blaenoriaeth uniongyrchol yn y Strategaeth newydd ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol. Roedd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn dadlau mai "Llywodraeth y DU sy'n llwyr gyfrifol am y problemau a wynebir o ran pobl nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus" ac ychwanegodd, mae'n "rhaid mai cynllun a gefnogir gan San Steffan yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy o ddiwallu anghenion y rhai nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus ar hyn o bryd, ac y bydd yn parhau i bwysu am hyn".⁶⁶

80. Amlinellodd y Gweinidog hefyd ymrwymiad i wella hyfforddiant a chanllawiau ar Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, a nododd yn benodol fod Cyngor ar Bopeth Abertawe wedi cael cytundeb i ddatblygu hyn ar gyfer awdurdodau cyhoeddus. Cyhoeddwyd y canllawiau hyn ar 29 Mehefin 2022.⁶⁷

81. Ym mis Gorffennaf 2021, lluniwyd Grŵp Llywio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dioddefwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a oedd Heb Hawl i Arian

⁶⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 109

⁶⁶ Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ysgrifenedig, Mehefin 2022

⁶⁷ Llywodraeth Cymru, Heb Hawl i Arian Cyhoeddus (NRPF): canllawiau, Mehefin 2022

Cyhoeddus. Caiff y Grŵp ei gadeirio gan y Cyngorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

82. Mewn datganiad ar gyfer y Cyfarfod Llawn, cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gobeithio y gallai ddarparu cymorth ariannol i bobl Heb Hawl i Arian Cyhoeddus:

"...rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu cronfa. Rhaid inni edrych arno o ran ein pwerau, unwaith eto. Rydym ni wedi cymryd cyngor cyfreithiol ar hyn, a byddwn yn cael cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac mewn egwyddor gallaf ddweud ei bod yn ddilys i Weinidogion Cymru ddefnyddio cymorth ariannol i helpu pobl nad oes ganddyn nhw hawl i gael arian cyhoeddus."⁶⁸

Ein barn ni

Mae'r polisi Heb Hawl i Arian Cyhoeddus yn rhwystr mawr i'r rhai sy'n profi trais rhywiol neu drais ar sail rhywedd sy'n ceisio cymorth; rydym yn pryderu ei fod yn debygol o ddod yn broblem fwy fyth wrth i nifer y bobl Heb Hawl i Arian Cyhoeddus gynyddu ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Er ein bod yn cydnabod bod Heb Hawl i Arian Cyhoeddus yn bolisi y DU gyfan mewn maes cyfrifoldeb a gadwyd yn ôl, mae rôl ar gyfer Llywodraeth Cymru i ddatblygu atebion ar lefel ddatganoledig. Clywsom gefnogaeth gref i ddarparu cronfa benodol i ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i fenywod mudol sy'n ddioddefwyr neu wedi goroesi Trais Rhywiol neu Drais ar sail Rhywedd a Heb Hawl i Arian Cyhoeddus. Byddai cronfa o'r fath ar gael i ddarparwyr gwasanaethau yn unig, yn hytrach na defnyddwyr unigol gwasanaethau, a gellid ei defnyddio i dalu costau llety a chymorth cefnogi goroeswyr heb hawl i arian cyhoeddus, nes bod penderfyniad i gefnogi yn cyrraedd gan y Swyddfa Gartref. Byddai angen i ddarparwyr gwasanaethau wneud cais i'r gronfa ganolog fel ac os y byddai'r angen yn codi.

Mae ymrwymiad y Gweinidog i edrych ar yr hyn sy'n bosibl o ran cyllid i'w groesawu, a byddem yn argymhell y dylid edrych ar gynlluniau sy'n bodoli eisoes i gael enghreifftiau, fel strategaeth 'Ending Destitution Together' Llywodraeth yr Alban. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried canlyniad adolygiad Llywodraeth y DU o'i chynllun peilot.

Yn ystod ein hymchwiliad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dogfen ganllaw newydd ar y statws Heb Hawl i Arian Cyhoeddus. Nid oedd gennym amser i gymryd tystiolaeth ar hyn ond amlygodd nifer o dystion yn ystod ein sesiynau fod angen hyfforddiant i sicrhau bod darparwyr

⁶⁸ Y Cyfarfod Llawn, 28 Mehefin 2022 Cofnod y Trafodion, paragraff 401

rheng flaen yn deall eu rhwymedigaethau yn llawn. O ystyried natur gymhleth y statws Heb Hawl i Arian Cyhoeddus mae'n debygol y bydd llwyddiant y canllawiau o ran gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r maes dadleuol hwn yn dibynnu ar yr hyfforddiant a ddarperir i gefnogi'r broses o'u cyflwyno.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa argyfwng y gall darparwyr gwasanaethau gael mynediad ati i gefnogi menywod mudol sy'n ddioddefwyr neu wedi goroesi Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd a Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, gan ddefnyddio strategaeth 'Ending Destitution Together' Llywodraeth yr Alban fel enghraifft. Disgwyliwn y caiff y gwaith hwn ei gyflawni yn y chwe mis nesaf, gyda bwriad i sefydlu cronfa erbyn mis Gorffennaf 2023.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariadau blynyddol ar ei gwaith o ran pobl Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, gan gynnwys gwaith y grŵp llywio Heb Hawl i Arian Cyhoeddus; cynnydd o ran opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer cefnogi menywod mudol Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, a thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU.

Rhyngweithio rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a statws Heb Hawl i Arian Cyhoeddus

83. Dadl y tystion gan gynnwys Cymorth i Fenywod Cymru, Bawso a Race Council Cymru oedd y gallai gwella gweithrediad *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (y Ddeddf) sicrhau bod y mwyafrif helaeth o oroeswyr Heb Hawl i Arian Cyhoeddus yn gallu cael lloches neu lety diogel arall, a chymorth. Amlygodd pob un yn eu tystiolaeth fod gan y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, o dan y Ddeddf, ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant ac oedolion os bernir bod hynny'n angenrheidiol er mwyn atal risg o gam-drin neu esgeulustod.⁶⁹

84. Nododd Cymorth i Fenywod Cymru a Bawso sawl enghraifft i ddangos y diffyg dealltwriaeth o ddyletswyddau o dan y Ddeddf, pan mae gwasanaethau wedi gwrthod diwallu anghenion gofal a chymorth oedolion sy'n goroesi a Heb Hawl i Arian Cyhoeddus.⁷⁰ Eglurwyd bod hyn yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, a'i fod fel 'loteri cod post' lle bydd un awdurdod lleol/gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi menyw mewn lloches ac un arall yn cefnogi'r plentyn yn unig.

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymorth i Fenywod a Bawso; Race Council Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymorth i Fenywod a Bawso

85. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod tueddiad i feddwl mai cam-drin domestig ydyw ac nad yw'n dod o fewn y Ddeddf.⁷¹

86. Awgrymodd Bawso a Chymorth i Fenywod Cymru y gellid sicrhau dull mwy cyson o sefydlu'r Ddeddf drwy:

- arweinyddiaeth gryfach wedi'i hategu gan ganllawiau cyfreithiol ac arfer da clir a hyfforddiant rheolaidd; a
- sefydlu tîm/rhwydwaith o arbenigwyr Heb Hawl i Arian Cyhoeddus sy'n cefnogi awdurdodau lleol ac sy'n gallu pennu cymhwysedd ar gyfer cymorth.⁷²

Barn Llywodraeth Cymru

87. Dywedodd y Dirprwy Weinidog, er bod dyletswydd ar y gwasanaethau cymdeithasol i asesu, nid oes dyletswydd arnynt i ddiwallu anghenion y rhai sy'n destun rheolaeth fewnfudo oherwydd yr eithriadau yn Adran 46. Dywedodd Julie Morgan hefyd fod angen edrych ar y mater hwn yn fwy manwl.⁷³

88. Cadarnhaodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod gwaith adolygu o ran diogelu unedig gydag ystorfa o ddeunydd dysgu o ran pob digwyddiad yn ymwneud ag adolygiadau ymarfer o ran plant ac o ran oedolion, a dynladdiad domestig, yn cael ei lunio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.⁷⁴

89. Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth, gwnaethom ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i ofyn ei barn ar arfer ar lawr gwlad mewn perthynas ag ymwybyddiaeth gweithwyr cymdeithasol ynghylch dyletswyddau mewn perthynas â phlant. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog, hyd yma, nad oedd dim materion wedi'u codi gyda'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol na'r Bwrdd Cenedlaethol ynghylch pryderon gan fenywod mudol am ryngweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol neu gael gafael arnynt, na phryderon y gallai eu plant fod mewn perygl o gael eu cymryd oddi wrthynt. Ychwanegodd Julie Morgan y gofynnwyd i swyddogion godi'r mater gyda'r Byrddau i ganfod a oes unrhyw brofiadau neu heriau wedi'u nodi.⁷⁵

90. Nododd y Dirprwy Weinidog y canllawiau sydd ar gael, sef 'Darpariaeth iechyd a llesiant ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches', a gyhoeddwyd yn 2018, sy'n nodi diben ac ymrwymiad y

⁷¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 186

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymorth i Fenywod a Bawso

⁷³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 138

⁷⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 142

⁷⁵ Llythyr at y Dirprwy Weinidog, Gwasanaethau Cymdeithasol, 22 Gorffennaf 2022; Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog, Gwasanaethau Cymdeithasol, 15 Awst 2022

Ddeddf, yn ogystal â'r canllawiau a luniwyd ar y cyd â Chlymblaid Ffoaduriaid Cymru, a gyhoeddwyd yn 2020, ynghylch mynediad at wasanaethau cymdeithasol a gofal a chymorth arall ar gyfer ceiswyr lloches anghenus heb hawl i arian cyhoeddus.⁷⁶

Ein barn ni

Mae'n amlwg bod dull anghyson o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ychwanegu at ofnau dioddefwyr sy'n dod ymlaen, pan, yn lle hynny, y dylai'r Ddeddf fod yn cynorthwyo'r rhai sydd angen cymorth.

Rydym yn croesawu'r awgrymiadau gan dystion ynghylch sut i wella'r dull o ymgorffori'r Ddeddf yn ymarferol drwy ganllawiau mwy eglur. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o weithrediad y Ddeddf gyda'r bwriad o fwrw ymlaen â rhai o'r awgrymiadau hyn o fewn y chwe mis nesaf.

Mae canllawiau clir a thrylwyr yn hanfodol i gefnogi'r rhai sy'n gweithio yn ôl gofynion y Ddeddf i ddeall y cyd-destun y maent yn gweithio ynddo. Galwn felly ar Lywodraeth Cymru i gynnwys gwerthusiad o'i chanllawiau presennol fel rhan o'i hadolygiad o weithrediad y Ddeddf, ac ymrwymiad i ddarparu hyfforddiant ledled Cymru i wella dealltwriaeth o'r canllawiau hyn.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o weithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i weld pa effaith y mae wedi'i chael ar fenywod mudol Heb Hawl i Arian Cyhoeddus a'u plant. Dylid cynnal yr adolygiad o fewn y chwe mis nesaf a dylai edrych yn ofalus ar ffyrdd o sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yn gyson ledled Cymru.

Argymhelliad 6. Dylai'r adolygiad gynnwys gwerthusiad o'r canllawiau a ddarperir i awdurdodau lleol ar weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'u rôl o ran cefnogi menywod mudol a'u plant Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol yn llawn. Dylai'r gwerthusiad hwn hefyd ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno canllawiau diwygiedig yn effeithiol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu deall yn gyson ledled Cymru.

Gallu sefydliadau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol

91. Roedd adroddiad SEREDA Prifysgol Birmingham yn amlygu mai dim ond un sefydliad arbenigol yng Nghymru, sef Bawso, sy'n gallu cefnogi menywod mudol sydd wedi profi trais ar

⁷⁶ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, 15 Awst 2022

sail rhywedd a thrais rhywiol. Dadleuodd Joanne Hopkins bod hyn yn rhoi pwysau aruthrol ar y sefydliad hwn, yn enwedig gan y bydd llawer o sefydliadau eraill yn atgyfeirio dioddefwyr/goroeswyr yn hytrach na darparu cymorth eu hunain.⁷⁷

92. Dywedodd Wanjiku Mbugua-Ngotho o Bawso wrthym:

*"We, indeed, have been receiving our core funding from the Welsh Government. [...] While this help is very welcome and we are grateful for it within BAWSO, I believe that it's not enough, especially when it comes to the category of women that we've talked about who have no recourse to public funds."*⁷⁸

93. Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi annigonolrwydd sydd wedi cael llawer o sylw o ran cyllid ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru, ac eglurodd fod ymchwil wedi dangos y gall arferion comisiynu traddodiadol eithrio sefydliadau 'gan ac ar gyfer' llai gan y gallant fod yn llai grymus wrth gymryd rhan mewn consortia, a'u bod yn methu â chael gafael ar y gyfran fwyaf o arian.

94. Nododd staff sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn ystod ein grwpiau ffocws, eu bod yn teimlo eu bod wedi'u gorlethu, eu bod yn gweithio oriau rhy hir ac nad oedd ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i gefnogi menywod yn effeithiol. Roedd hyn yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd a'u llesiant.

95. Roedd y graddau y mae gan wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector eglurder a sicrwydd o ran cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol, a'r bylchau dilynol yn y ddarpariaeth hon hefyd yn bryder mawr. Fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidog a chadarnhaodd yn ei hymateb bod gan Llywodraeth Cymru gynllun i gynnig dyfarniadau grant aml-flwyddyn i sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio yn y sector:

"Mae Canolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd cyfeiriad y polisi strategol yn newid, ac felly bydd grantiau trais rhywiol a cham-drin hefyd yn cael eu halinio â dyfarniadau grantiau aml-flwyddyn o'r flwyddyn ariannol 2023-2024."

Bydd pob grant cystadleuaeth, oni bai bod Gweinidogion neu ffactorau eraill yn pennu fel arall, yn cael eu dyfarnu am hyd at 3 blynedd, a chynhelir ymarfer meincnodi i asesu perfformiad ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Yn

⁷⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 157

⁷⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 20

amodol ar ganlyniad y meincnodi, gall y cynllun grant, os oes angen, gael ei ymestyn wedyn am 3 blynedd arall.”⁷⁹

Barn Llywodraeth Cymru

96. Mae papur y Gweinidog yn tynnu sylw at yr adroddiad⁸⁰ Torri Tir Newydd, a ddaeth i’r casgliad mai gwasanaethau arbenigol sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu cymorth i fenywod mudol sy’n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

97. Nododd y Gweinidog fod dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran cyllid cyffredinol, cyllid rhanbarthol a chyllid penodol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y canllawiau statudol yn ogystal â’r fframwaith hyfforddi yn sicrhau “ni waeth ble mae dioddefwr yn byw yng Nghymru, mae yna wasanaeth cyhoeddus ac arbenigol cryf yn barod i helpu.”⁸¹ Fodd bynnag, cydnabu’r Gweinidog hefyd ganfyddiadau’r adroddiad SEREDA, yn benodol “mae tystiolaeth glir bod angen cymorth ychwanegol ar oroeswyr trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd mudol yng Nghymru”.

Ein barn ni

Mae’n amlwg bod y gwasanaethau a ddarperir gan Bawso yn rhan annatod o’r cymorth a ddarperir i fenywod mudol sydd wedi dioddef trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd, ond bod lefelau’r galw yn rhoi straen ar ei allu i ddarparu’r gwasanaethau hynny.

Rhaid i wasanaethau arbenigol sydd â rhan mor bwysig yn amddiffyn dioddefwyr a goroeswyr gael eu hariannu’n gynaliadwy, ac rydym yn croesawu’r sicrwydd y bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddyfarniadau aml-flwyddyn o arian grant yn ei roi. Mae cefnogaeth barhaus a chyson gan wasanaethau arbenigol yn hanfodol ar gyfer meithrin perthnasoedd o fewn cymunedau a sefydlu ymddiriedaeth ymhlith aelodau’r gymuned.

Rydym yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen i sefydliadau gynllunio, ac felly gallai amser arweiniol at ffrydiau ariannu fod yn fuddiol o ran caniatáu i wasanaethau drefnu eu gwaith.

Mynediad at gyngor cyfreithiol

98. Nid oeddem yn bwriadu edrych ar fynediad at gyngor cyfreithiol, ond fe’i codwyd gan nifer o dystion, gan gynnwys Southall Black Sisters, yr Athro Phillimore, Cymorth i Fenywod

⁷⁹ Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 20 Ebrill 2022

⁸⁰ Torri Tir Newydd, Tachwedd 2013

⁸¹ Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ysgrifenedig, Mehefin 2022

Cymru a Bawso. Tynnodd Andrea Cleaver o Gymorth i Fenywod sylw at yr 'anialwch' o ran cyngor cyfreithiol yng Nghymru:

*"...we also know that there is a gap in legal provision, so when people do need help around their immigration status, that also isn't there in Wales—we know that there's a desert."*⁸²

99. Yn yr un modd, canfu astudiaeth SEREDA hefyd fod goroeswyr eisiau gwell cymorth cyfreithiol o ran eu hawliadau lloches a chodi ymwybyddiaeth ynghylch hawliau cyfreithiol.⁸³

100. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan Dr Alexandria Innes bwysigrwydd cefnogaeth o'r fath, a nododd y byddai cymorth cyfreithiol hygyrch am ddim gyda rheolau mewnfudo cymhleth yn helpu menywod a merched â statws ansicr.⁸⁴

101. Yn ystod ein sesiynau yn Abertawe, clywsom fod amser aelodau o staff yn cael ei dreulio'n aml yn cynorthwyo gyda chngor cyfreithiol ac yn rhoi cymorth i fenywod sy'n ymwneud â'r system gyfreithiol.

102. Eglurodd JustRight Scotland fod cyllid Llywodraeth yr Alban wedi'u galluogi i ddarparu cyngor cyfreithiol am ddim i fenywod mudol, a dywedodd fod darparu cyngor cyfreithiol yn elfen allweddol o ddarparu cymorth i ddioddefwyr/goroeswyr mudol.⁸⁵

Ein barn ni

Nid oeddem yn bwriadu cymryd tystiolaeth ar fynediad at gyngor cyfreithiol, ond daeth yn amlwg bod pryderon yn bodoli ynghylch y ddarpariaeth, ac mae nifer o dystion yn nodi ei bwysigrwydd.

Er bod y sector cyfreithiol yn wynebu sawl her, roeddem yn bryderus o glywed cyfeiriad at 'anialwch' o ran darpariaeth gyfreithiol i fenywod mudol yng Nghymru. Dylai mynediad at gyngor cyfreithiol ynglŷn â statws mudol fod yn rhan safonol o'r hyn a gynigir i ddarparu cefnogaeth drylwyr ac ystyrlon i ddioddefwyr mudol. Byddai hynny o fudd i sefydliadau arbenigol, y gallai eu hamser gael ei ddefnyddio i ganolbwyntio ar rywbeth arall. Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r pryderon a godwyd, a nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r broblem hon.

⁸² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 31

⁸³ Adroddiad SEREDA, Mai 2022

⁸⁴ Dr. Alexandria Innes, Canolfan Trais a Chymdeithas City University of London, Tystiolaeth ysgrifenedig

⁸⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 234

Hefyd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall ddarparu gwell mynediad at gyngor cyfreithiol o ansawdd da, drwy weithio gyda rhanddeiliaid i ystyried enghreifftiau o arfer da ar hyn o bryd, er enghraifft, JustRight Scotland.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda Llywodraeth y DU i ymateb i bryderon ynghylch darpariaeth cyngor cyfreithiol o ran statws mewnfudo i fenywod mudol yng Nghymru.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall sicrhau y gellir cael mynediad at gyngor cyfreithiol o ansawdd da, drwy weithio gyda rhanddeiliaid i edrych ar enghreifftiau o arfer da, gan gynnwys JustRight Scotland, ac adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor hwn erbyn mis Gorffennaf 2023.

Hyfforddi gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen

103. Bydd menywod mudol yn debygol o ddod i gysylltiad ag amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd ac ysgolion cyn y cânt unrhyw gymorth arbenigol. Mae'r gwasanaethau hyn yn bwysig ar gyfer darparu cymorth a chyfeirio at gymorth arbenigol ar gyfer menywod mudol sy'n profi trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd. Clywsom dystiolaeth, fodd bynnag, y gall diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gwahanol reolau mewnfudo, hawliau mudol a hawliau o ran budd-daliadau lesteirio effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir gan wasanaethau rheng flaen.

104. Nododd Andrea Cleaver fod Cymorth i Fenywod Cymru wedi darparu hyfforddiant i Goleg Brenhinol y Meddygon cyn y cyfyngiadau symud, ond nad oedd o leiaf hanner y rhai a oedd yn bresennol erioed wedi clywed am y Genedl Noddfa, heb sôn am yr holl reolau ynghylch mewnfudo.⁸⁶

105. Roedd adroddiad SEREDA, Prifysgol Birmingham, yn dadlau y gall menywod a merched mudol ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau iechyd a chanfu bod diffyg dealltwriaeth o anghenion cymunedau amrywiol a sut i ymateb mewn ffordd ddiwylliannol briodol. Roedd yr arfer o gyfieithu deunyddiau yn brin, nid oedd staff yn cael eu cefnogi i ddatblygu cymhwysedd diwylliannol ac nid oedd gan sefydliadau wybodaeth am sut i nodi, cefnogi nac atgyfeirio unigolion, ac roedd llwybrau atgyfeirio yn aneglur.⁸⁷

106. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi bod diffygion yn y cymorth a ddarperir gan wasanaethau rheng flaen sy'n cynnwys

⁸⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 64

⁸⁷ Adroddiad SEREDA, Mai 2022

gwahaniaethu, darpariaeth annigonol nad yw wedi'i chynllunio i ddiwallu eu hanghenion, anghrediniaeth ar ran darparwyr gwasanaethau, neu ofn awdurdodau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau mewnfudo.⁸⁸

107. Amlygodd Wanjiku Mbugua-Ngotho o Bawso achos lle roedd angen cymorth ar deulu sy'n ceisio lloches:

"...a few months ago, we had a situation where an asylum-seeking family was going through really horrible domestic abuse, where the perpetrator—mostly due to his post-traumatic stress disorder issues, real bad mental health there—threatened to kill the family. And he meant it; he was going to do it. And the police turned up and they said, 'Oh, so they are asylum seekers. What do we do with them?' They left. They left them there and nobody did anything until BAWSO was called in the following day."⁸⁹

108. Yn Abertawe, clywsom am enghreifftiau o arfer da, yn enwedig o ran nodi arwyddion trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd, a chyfeirio at Bawso. Cafodd cyfranogwyr eu cyfeirio at Bawso drwy ysgolion, ymwelwyr iechyd ac yn dilyn cyswllt â'r Heddlu. Nid oedd hyn yn gyson, fodd bynnag, â'r hyn a glywsom am arfer gwael gan gyfranogwyr yn ystod ein grŵp ffocws yn Wrecsam.

109. Cynigiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymorth i Fenywod Cymru y dylid darparu hyfforddiant pellach ar sail dreigl, a ddylai fod wedi'i deilwra'n arbennig neu wedi'i gynnwys mewn rhaglenni hyfforddi sy'n bod eisoes.

110. Nododd Naomi Alleyne o CLILC bwysigrwydd rhaglen barhaus:

"[...] you can do training, you can do awareness raising, but staff move on. It's not a one-off event; it needs to be something that's much more ongoing in terms of not only built into existing programmes, but specialist programmes as well [...]"⁹⁰

111. Dywedodd y Dirprwy Brif Gwnstabl Amanda Blakeman wrthym fod yr Heddlu wedi buddsoddi mewn hyfforddiant Domestic Abuse Matters i staff ledled Cymru, sy'n cynnwys cwrs tri diwrnod ar drais ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir.⁹¹

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

⁸⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 67

⁹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 129

⁹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 13

112. Fe wnaethom ofyn i'r Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman am ragor o wybodaeth yn ymwneud â hyfforddiant. Cadarnhaodd:

*"Mae swyddogion yn derbyn hyfforddiant yn rhan o'u hyfforddiant cychwynnol cyn cael eu hanfon i'r rheng flaen. Darperir hyfforddiant pellach ar ddiwrnodau hyfforddi yn rhan o raglen barhaus, yn arbennig pan ddaw gwybodaeth/deddfwriaeth newydd i law."*⁹²

Barn Llywodraeth Cymru

113. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog am y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod staff ledled Cymru yn cael hyfforddiant perthnasol. Dywedodd wrthym fod hyfforddiant yn rhan allweddol o'r hyn y gallant ei wneud i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn addas i'r diben, o ran anghenion menywod mudol.⁹³

114. Tynnodd y Gweinidog sylw at y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, sy'n "codi proffil materion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ac yn uwch-sgilio'r gwasanaeth cyhoeddus er mwyn iddo allu ymateb yn fwy effeithiol i'r rhai sy'n profi VAWDASV gan gynnwys dioddefwyr cam-drin ar sail anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod."⁹⁴

115. Nododd y Gweinidog, o fis Ebrill 2021, fod dros 243,000 o bobl yng Nghymru wedi cael hyfforddiant drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu 18 o sesiynau hyfforddi hanner diwrnod ar gyfer staff awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hawliau dinasyddion yr UE a grwpiau mudol eraill, gan gynnwys pobl Heb Hawl i Arian Cyhoeddus.⁹⁵

Ein barn ni

Clywsom am enghreifftiau calonogol o arfer da yn ein grŵp ffocws yn Abertawe, lle'r oedd menywod mudol wedi'u cyfeirio at Bawso drwy ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, sy'n tanlinellu'r cysylltiad pwysig y gallant ei ddarparu i wasanaethau cymorth. Fodd bynnag, o'n sgwrsiau â goroeswyr mewn mannau eraill, mae'n amlwg nad yw hyn bob amser yn wir.

Soniodd y tystion am yr angen am ddull gweithredu cyson ledled Cymru. Roedd yr angen am hyfforddiant parhaus hefyd yn amlwg, oherwydd bod rhai tystion yn tynnu sylw at y newid staff

⁹² Llythyr gan y Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman, 24 Awst 2022

⁹³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 110

⁹⁴ Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ysgrifenedig, Mehefin 2022

⁹⁵ Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ysgrifenedig, Mehefin 2022

yn aml a rheolaidd yn y meysydd hyn. Mae'r ffaith bod dros 243,000 o bobl wedi cael mynediad at hyfforddiant drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn addawol. Fodd bynnag, o ystyried natur gymhleth y maes hwn mae'n hollbwysig bod hyfforddiant yn rheolaidd ac yn gyson, a'i fod yn mynd i'r afael â'r heriau penodol a all godi wrth ymdrin â menywod mudol. Mae'r heriau hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o normau diwylliannol, materion Heb Hawl i Arian Cyhoeddus a rhwystrau o ran iaith. Rydym yn pryderu nad yw rhai dioddefwyr yn cael y cymorth cywir neu'n methu â chael cymorth oherwydd gwahaniaethu neu anghrediniaeth ar ran darparwyr gwasanaethau. Mae hyfforddiant yn hynod o bwysig, nid yn unig oherwydd cymhlethdodau rheolau mewnfudo ond hefyd i fynd i'r afael â materion fel rhagfarn, a rhagfarn ymwybodol a rhagfarn ddjarwybod.

Felly dylai Llywodraeth Cymru nodi canllawiau ar gyfer hyfforddiant ar faterion penodol sy'n ymwneud â menywod mudol, y gellir eu hymgorffori mewn hyfforddiant rheolaidd ledled Cymru, i wella dealltwriaeth ac i liniaru unrhyw ymddygiad gwahaniaethol posibl a ddangosir gan wasanaethau rheng flaen.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi canllawiau ar gyfer hyfforddiant ar faterion penodol sy'n ymwneud â menywod mudol y gellir eu hymgorffori mewn hyfforddiant rheolaidd ledled Cymru, i wella dealltwriaeth ac i ddileu unrhyw ymddygiad gwahaniaethol posibl a ddangosir gan wasanaethau rheng flaen. Dylid cyhoeddi'r canllawiau hyn erbyn mis Gorffennaf 2023.

4. Casglu a rhannu data

116. Mae diffyg data cadarn yn ei gwneud yn anodd canfod yn llawn beth yw cyfraddau trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd mewn cymunedau mudol. Credir y caiff yr angen i gasglu data i ddeall anghenion menywod mudol yn well ei rwystro gan yr ofn y bydd data'n cael ei rannu ag asiantaethau at ddibenion rheoli mewnffudo.

Casglu data

117. Esboniodd RCC ei bod yn anodd deall pa mor gyffredin yw trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd mewn cymunedau mudol gan nad yw gwasanaethau yn aml yn gofyn am genedligrwydd neu statws mewnffudo'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac mae hynny'n arwain at fylchau mawr.⁹⁶ Roedd adroddiad SEREDA yn ategu hyn, oherwydd canfu nad oedd fawr o ddata ar gael i ddarganfod graddau'r angen a oedd heb ei ddiwallu.

118. Yn eu hymateb i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, argymhellodd Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon, Together Creating Communities, Comunidade de Lingua Portuguesa Wrecsam, Vesta SFS, Bawso, Sefydliad Henna a Women Connect First:

*"The Strategy should include a commitment by the Welsh Government to introduce a common data recording framework for frontline services which includes the **nationality** of survivors referred for support and of perpetrators of abuse."*⁹⁷

119. Gofynnwyd i'r Dirprwy Brif Gwnstabl a yw'r Heddlu yn gofyn am gydsyniad dioddefwyr pan fyddant yn casglu data. Atebodd hi:

*"Yes. So, as much as we possibly can, yes, given the fact that, often, we have barriers to come through, such as language, et cetera. So, obviously, we try to do that in a sensitive way, also looking at the fact that the victim will be coming to us mainly at the point of crisis as well."*⁹⁸

⁹⁶ Race Council Cymru, *tystiolaeth ysgrifenedig*

⁹⁷ Ymateb ysgrifenedig Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon, Caerdydd, Together Creating Communities, Comunidade de Lingua Portuguesa Wrecsam, Vesta SFS, Bawso, Sefydliad Henna a Women Connect First

⁹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 38

Barn Llywodraeth Cymru

120. Cydnabu'r Gweinidog y diffyg data ar gyfraddau mynychder a thynnodd sylw at gasgliad yr Adolygiad o Torri Tir Newydd bod data yn "brin".⁹⁹ Dywedodd y Gweinidog wrthym y bydd yr Uned Tystiolaeth am Wahaniaethau ar sail Hil yn helpu i ddarparu data gwell gan alluogi gwasanaethau cyhoeddus i ymateb.¹⁰⁰

121. Yn yr un modd, gofynnwyd i'r Gweinidog lechyd ynghylch casglu data mewn perthynas â mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, a dywedwyd wrthym nad yw data ar statws mudo yn cael ei fonitro'n "benodol". Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog y byddent, fel rhan o Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru, yn dechrau casglu'r data hyn yn y dyfodol ac yn cynyddu maint, ansawdd a dyfnder y data sydd ganddynt am fenywod a merched¹⁰¹.

122. Cadarnhaodd y Gweinidog lechyd fod Unedau Tystiolaeth Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd yn ddiweddar, wedi datblygu Strategaeth Tystiolaeth am Gydraddoldeb, y bwriedir ei chyhoeddi ym mis Medi 2022, a bod blaenoriaethau ar gyfer yr unedau'n cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid yn seiliedig ar ymrwymïadau a wnaed eisoes a gofynion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys o ran Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru. Ychwanegodd mai un o dasgau cychwynnol yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil fydd nodi'r bylchau yn y dystiolaeth sy'n ymwneud ag ethnigrwydd a hil, ac yn dilyn hynny "bydd yr uned yn bwrw ymlaen â rhaglen waith i wella'r sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys ymgysylltu parhaus â phobl o ethnigrwydd lleiafrifol i wella eu gwybodaeth a'u hymddiriedaeth yn y modd y bydd eu data'n cael ei ddefnyddio, er mwyn cynyddu eu hyder i rannu data."¹⁰²

Ein barn ni

Mae i ddata ran bwysig yn ein dealltwriaeth o'r materion, ac o faint yr her a wynebïr. Bydd dealltwriaeth well o'r sefyllfa yng Nghymru yn helpu i lywio polisiâu a strategaethau, ac yn gwella'r gwaith o fonitro llwyddiant y polisiâu hynny ar lawr gwlad.

O ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ein hymchwiliad, rydym o'r farn y dylai'r Unedau Tystiolaeth am Gydraddoldeb, Hil ac Anabledd roi blaenoriaeth i'r bwlch data o ran y grŵp penodol hwn o fenywod.

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cael trafodaeth ystyrion â dinasyddion am y modd y caiff eu data eu casglu, a sut y caiff y data eu storio a'u defnyddio. Dylai Llywodraeth Cymru

⁹⁹ Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ysgrifenedig, Mehefin 2022

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 115

¹⁰¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 104

¹⁰² Llythyr oddi wrth y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 23 Awst 2022

ymgyngori â rhanddeiliaid, gan gynnwys arbenigwyr ar ddata, arbenigwyr ar gyfiawnder ac arbenigwyr ar hawliau dynol, a gwyddonwyr data, wrth greu'r systemau hyn.

Clywsom hefyd am sut y mae menywod mudol ddim yn deall yn llawn, o bosibl, pa wybodaeth a gesglir amdanynt a pham. Rydym yn ymwybodol mai ystyr y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yw bod yn rhaid i bobl gael gwybod pam y cesglir eu data, a sut y caiff y data eu storio a'u defnyddio. Rydym yn pryderu, fodd bynnag, y gall y grŵp o fenywod penodol hyn fod angen cymorth ychwanegol i wneud yn sicr eu bod yn rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth, ac rydym yn pryderu na cheir data cywir oni bai bod yr eglurhad hwn yn cael ei gynnig.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r data newydd sydd ar gael drwy'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd i sefydlu llinellau sylfaen i lywio'r gwaith o fonitro a thargedu cyngor a gwasanaethau yn y dyfodol. Dylid cyflawni'r gwaith hwn o fewn y chwe mis nesaf.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau, pan fydd yn casglu data am fenywod mudol, bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n digwydd gyda'u data, a sut y bydd eu data yn llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Rhannu data

123. Yn aml, y gwasanaethau rheng flaen fydd y cyntaf i ddynodi menywod sydd mewn perygl, neu sy'n ddioddefwyr, ac felly mae ganddynt ran allweddol wrth sicrhau bod menywod yn cael cymorth ac yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth. Fodd bynnag, clywsom lawer o bryderon y bydd y gwasanaethau hyn yn rhannu data a statws mewnffido menyw â'r Swyddfa Gartref, a'r ofn y bydd hyn yn arwain at gymryd camau gorfodi.

124. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod goroeswyr mudol yn cael eu hatal rhag nodi cam-drin wrth yr heddlu rhag ofn y gallai eu data gael eu rhannu ag adran orfodi mewnffido¹⁰³, a dywedodd Bawso wrthym fod menywod yn anghyfforddus ynghylch rhannu eu gwybodaeth rhag ofn i'r data gael eu trosglwyddo i'r Swyddfa Gartref.¹⁰⁴

125. Dywedodd Elizabeth Jiménez-Yáñez o glymblaid 'Step Up' ar gyfer Menywod Mudol wrthym am achos diweddar o fenyw yn profi achos risg uchel o gam-drin domestig a stelcian:

"She was undocumented, and she was undocumented as part of the abuse. So, she came terrified to our service, and after evaluating and assessing her case, her caseworker recommended reporting it to the police because of the

¹⁰³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 45

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

high risk of the situation. [...] eight days after they did an online report to the police, she received an immigration enforcement letter. What is worse is that the police officers came to her house and when they realised that she was undocumented, they called immigration enforcement in front of her."¹⁰⁵

126. Dadleuodd Dr Alexandria Innes fod angen ymrwymiad a gaiff lawer o gyhoeddusrwydd na fydd unrhyw un sy'n ceisio cymorth ar gyfer cam-drin yn cael ei nodi wrth y Swyddfa Gartref yng Nghymru, ac y dylai'r ymrwymiad hwn gynnwys yr heddlu, darparwyr addysg a gofal iechyd a gwasanaethau arbenigol.¹⁰⁶

127. Dywedodd y Dirprwy Brif Gwnstabl Amanda Blakeman wrthym: "Nid oes dyletswydd gyfreithiol i rannu gwybodaeth, a phe bai Gwasanaethau Mewnffudo yn rhwystro ymgysylltu â'r dioddefwr, ni fyddai'r Heddlu'n debygol o rannu." Mae'r achosion pan fydd data'n cael eu rhannu yn cynnwys cyfarfodydd aml-asiantaeth ynghylch rheoli risg i ddioddefwyr, os yw hynny'n hollbwysig o ran diogelu.¹⁰⁷

128. Fe wnaethom ofyn i'r Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman am eglurhad pellach ynghylch pa fath o ddata a rennir, gan ba asiantaethau ac o dan ba amgylchiadau penodol.¹⁰⁸ Dywedodd wrthym mai data generig yw'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu, yn hytrach na data personol unigolion. At hynny, darparodd ddogfen ganllaw i ni ynghylch rhannu gwybodaeth mewn perthynas â dioddefwyr sydd o bosibl â statws mewnffudo ansicr, y mae heddluoedd wedi'i chyflwyno i'r Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (Marac) a'i defnyddio lle bo hynny'n briodol.¹⁰⁹ Mae'r canllaw yn nodi:

"Rhaid i gynadleddau Marac sicrhau bod gwybodaeth sy'n cael ei rhannu o fewn y broses yn rhoi diogelwch y dioddefwr/dioddefwyr o flaen popeth arall. Dylid rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau mesurau cryfach ar gyfer diogelu - er enghraifft i alluogi'r dioddefwr/dioddefwyr i gael mynediad at lety diogel, gorchmynion amddiffyn gan y llys, ymwneud â systemau teuluol, sifil neu gyfiawnder troseddol, i gadarnhau cam-drin domestig ar gyfer achosion llys neu i gael mynediad at wasanaethau arbenigol eraill."

¹⁰⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Mai 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 50

¹⁰⁶ Dr Alexandria Innes, Canolfan Trais a Chymdeithas City University of London, Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman

¹⁰⁸ Llythyr at y Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman, 10 Hydref 2022

¹⁰⁹ Llythyr gan y Dirprwy Brif Gwnstabl Blakeman, 14 Hydref 2022

129. Clywsom alwadau am fur gwarchod yn ystod ein hymchwiliad¹¹⁰, a fyddai'n golygu gwahaniad rhwng gweithgareddau gorfodi mewnfudo a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

130. Awgrymodd Elizabeth Jiménez-Yáñez o Glymblaid Menywod Mudol Step Up y byddai mur gwarchod nid yn unig yn cael y canlyniad cadarnhaol o ganiatáu i ddioddefwyr adrodd yn ddiogel, ond byddai hefyd yn cymryd y baich oddi ar wasanaethau statudol, gan gynnwys yr heddlu, i orfod cymryd camau sy'n gysylltiedig â mewnfudo.¹¹¹

131. Tynnodd Elizabeth Jiménez-Yáñez sylw at enghraifft o arfer da yng ngogledd Cymru, rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Bawso, lle mae dull partneriaeth lle mae dioddefwyr â statws mewnfudo ansicr yn cael eu cyfeirio at y sefydliad.¹¹² Enwodd hefyd enghraifft o bolisi yn yr Iseldiroedd, sy'n gweithredu fel mur gwarchod:

*"It's a policy called 'safe in, safe out', in which migrants with insecure immigration status can come to police stations and report crime with the certainty that their immigration status won't take precedence or won't be shared with immigration enforcement officers."*¹¹³

132. Tynnodd JustRight Scotland sylw at ddatblygiad dull partneriaeth rhwng yr heddlu, awdurdodau lleol a Llywodraeth yr Alban i lunio canllawiau sy'n ceisio egluro'r sefyllfa gyfreithiol, arfer da ac amlygu profiad y goroeswr. Dywedasant ei bod wedi bod yn ddefnyddiol sicrhau bod y sefyllfa o ran rhannu data yn cael ei gwneud yn glir i gymunedau mudol a darparwyd enghraifft o ran y GIG yn yr Alban.¹¹⁴

Barn Llywodraeth Cymru

133. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am yr amgylchiadau pan fyddai gwasanaethau statudol yn rhannu statws mewnfudo â'r Swyddfa Gartref. Atebodd drwy ddweud y canlynol:

"...we don't share data with the Home Office, unless there is a very extreme reason for us to do that, and, obviously, we then have to comply with UK law. But it would have to be under those extreme circumstances that that would

¹¹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Mai 2022, Cofnod y Trafodion, para 52; Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, para 48

¹¹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Mai 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 52

¹¹² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Mai 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 126

¹¹³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 16 Mai 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 155

¹¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig JustRight Scotland

happen. There is no routine sharing of information at all between the NHS and immigration services."¹¹⁵

134. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw rannu data sy'n digwydd, ond y bydd, o ganlyniad i'w ddarllen yn y dystiolaeth a roddwyd, yn edrych ar hynny'n fanylach.¹¹⁶

135. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog a oedd mur gwarchod wedi'i ystyried. Dywedodd y gallai drafod â'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol rywbeth cyfwerth â mur gwarchod o ran ein pwerau.¹¹⁷

Ein barn ni

Rhannu data

Clywsom bryderon, sy'n codi dro ar ôl tro am rannu data, yn ogystal â'r effaith y gall y pryderon hyn ei chael ar ymddiriedaeth y rhai sy'n ystyried dod ymlaen i geisio cymorth. Gall y pryderon hyn gael eu gwaethygu gan ddull gweithredu'r gwasanaethau dan sylw sy'n ymddangos yn anghyson.

Clywsom am ddull partneriaeth yn yr Alban rhwng Llywodraeth yr Alban, yr heddlu ac awdurdodau lleol ac ystyriwn fod y dull hwn yn dangos ymrwymiad i roi eglurder i'r sefydliadau sy'n gweithio gyda dioddefwyr, ac i leddfu pryderon y rhai dan sylw.

Rhannodd heddluoedd Cymru eu canllawiau â ni ynghylch rhannu data, sy'n taro cydbwysedd rhwng diogelu a'r angen i amddiffyn hawliau dioddefwyr.

Rydym yn nodi ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i ymchwilio i fater rhannu data, ac yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru arwain o ran gweithio mewn partneriaeth i lunio canllawiau sy'n egluro'r sefyllfa gyfreithiol; dylid rhannu hwn yn eang â sefydliadau arbenigol, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd yn ehangach. Dylai'r canllawiau hefyd amlygu effaith rhannu data ar barodrwydd unigolion i ofyn am gymorth.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Heddlu ac awdurdodau lleol, gymryd camau drwy ganllawiau i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y berthynas rhwng rhannu data a pharodrwydd goroeswyr i geisio cymorth. Dylid rhannu'r canllawiau hyn yn eang

¹¹⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff

¹¹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 124

¹¹⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 128

â sefydliadau arbenigol, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd ehangach a dylent fod ar gael mewn ieithoedd gwahanol.

Mur gwarchod

Er gwaethaf sicrwydd gan y Gweinidogion a'r Heddlu, mae'n ymddangos nad yw'r neges yn ddigon clir ar gyfer cymunedau ac unigolion na fydd eu data'n cael eu rhannu. Bydd canllawiau sy'n egluro'r sefyllfa gyfreithiol yn helpu'r gwasanaethau hynny sy'n darparu cymorth, ond byddai sefydlu mur gwarchod i gyfyngu ar rannu data yn gam pellach tuag at ennill ymddiriedaeth dioddefwyr, a chynyddu eu hyder i estyn allan a cheisio cymorth.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mur gwarchod sy'n cyfyngu ar rannu data rhwng asiantaethau ar y rhai sy'n ceisio cymorth o ran Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd.

5. Dull strategol Llywodraeth Cymru

136. Clywsom dystiolaeth gan nifer o dystion gan gynnwys Cymorth i Fenywod Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch cynrychiolaeth menywod mudol yn strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

137. Dadleuodd Sara Kirkpatrick o Gymorth i Fenywod Cymru y dylai mynd i'r afael ag anghenion menywod mudol a goroeswyr mudol fod yn ganolog i Strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol Llywodraeth Cymru, ac ychwanegodd: "If we cover the needs of the many, the few will get left out."¹¹⁸

138. Dywedodd Joanne Hopkins wrthym am bryder arbennig Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch y diffyg cyfeiriad amlwg at bobl sydd wedi'u dadleoli yn yr ystyr eang, a nododd fod risg y bydd menywod mudol yn cwmpo rhwng y bylchau yn yr holl gynlluniau hyn.¹¹⁹

139. Nododd Wanjiku Mbugua-Ngotho bryderon Bawso bod cymorth penodol i fenywod Heb Hawl i Arian Cyhoeddus a chymorth i blant wedi'u hepgor o'r Strategaeth newydd. Dywedodd wrthym, er bod Bawso wedi ymateb i'r ymgynghoriad, nid oedd yn ymddangos bod hynny wedi newid pan gafodd y strategaeth ei chwblhau.¹²⁰

140. O ran gweithio gyda rhanddeiliaid, dywedodd Andrea Cleaver o Gyngor Ffoaduriaid Cymru wrthym:

*"One of the main differences in Scotland is that the Scottish Refugee Council is a strategic partner of the Scottish Government, and that means that it's able to move a lot faster on migrant issues. It's something for Welsh Government to consider."*¹²¹

141. Nododd Sara Kirkpatrick o Gymorth i Fenywod pa mor bwysig yw monitro canlyniadau'r Strategaeth, sefydlu atebolrwydd lle nad yw camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith, a darparu cyfleoedd i gydnabod ac ymgorffori arfer gorau. Dywedodd:

"If we were to take as first principles that idea of no women left behind, of a Nation of Sanctuary that is looking after those who are hurt and harmed,

¹¹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff

¹¹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 88

¹²⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 99-101

¹²¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff

and providing proper support, and checking that that's happening and learning when it's not, we would be making great progress."¹²²

Barn Llywodraeth Cymru

142. Yn ystod ei datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar y Strategaeth newydd, nododd y Gweinidog ei bod yn "ddogfen fyw" ac y gallai hi "ragweld yn llwyr y bydd arnom angen ffrwd waith ar gyfer menywod mudol."¹²³

143. Mae Bwrdd Partneriaeth i oruchwylio gweithredu'r Strategaeth newydd wedi'i sefydlu gyda chyfres o is-grwpiau neu ffrydiau gwaith i fwrw ymlaen â chamau gweithredu allweddol, gan gynnwys "llais y goroeswr".

144. Nododd y Gweinidog bwysigrwydd cydweithredu wrth gyflawni cynlluniau'n llwyddiannus, a dywedodd fod Bawso wedi'i wreiddio'n gadarn ym mhob grŵp polisi gweithredu.¹²⁴ Dywedodd fod Bawso yn aelod o'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ac y byddai'n fodlon ystyried ehangu aelodaeth y bwrdd i gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru.¹²⁵

145. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn cyfeirio at nifer o gamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cenedl Noddfa, gan gynnwys:

- ailystyried argymhellion adroddiad 'Torri Tir Newydd: Adroddiad ar drais yn erbyn menywod mudol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru' er mwyn nodi'r camau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd;
- gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer darparu cyllid i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid er mwyn sicrhau cymorth dibynadwy;
- sicrhau bod anghenion ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael eu hystyried o fewn fframwaith cyfathrebu cenedlaethol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

¹²² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 103

¹²³ Y Cyfarfod Llawn, 28 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 402

¹²⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 197

¹²⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 27 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 202

- ystyried ymhellach a yw'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i amgylchiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches.¹²⁶

146. Ychwanegodd y Gweinidog y gellid cymryd camau i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ymwybodol o safbwynt Llywodraeth Cymru o ran Cenedl Noddfa.

Ein barn ni

Rydym yn croesawu dull agored y Gweinidog o ran y Strategaeth newydd ac ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'n hymchwiliad. Mae'n amlwg bod angen gwneud rhagor i ddiwallu anghenion penodol menywod mudol ac felly rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r Strategaeth newydd i gynnwys ffrwd waith ar fenywod mudol. Dylai'r ffrwd waith hon gael ei chefnogi gan grŵp penodol o oroeswyr.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae mewnbwn goroeswyr yn allweddol wrth ddatblygu strategaethau ar gyfer y dyfodol, ac felly rydym yn falch o ddeall y caiff llais goroeswyr ei groesawu fel rhan o waith y Bwrdd Partneriaeth. Byddem yn cefnogi'n bendant gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru ar y Bwrdd Partneriaeth.

Nodwn y camau gweithredu a gynhwysir yn y Cynllun Cenedl Noddfa. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad wedi'i ddiweddarau i amlinellu ei chynnydd o ran y Cynllun.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru fel aelod o'i Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio ei Strategaeth ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022-26 i gynnwys adran sy'n ymdrin yn benodol ag anghenion menywod mudol a phlant, a'r rhai sy'n destun yr amod Heb Hawl i Arian Cyhoeddus.

¹²⁶ Llywodraeth Cymru, **Papur tystiolaeth ysgrifenedig**, Mehefin 2022

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. **Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.**

Dyddiad	Enw a sefydliad
16 Mai 2022	Yr Athro Jenny Phillimore Prifysgol Birmingham Elizabeth Jiménez-Yáñez Clymblaid Menywod Mudol Step Up Hannana Siddiqui, Pennaeth Polisi, Ymchwil a Chodi Arian Southall Black Sisters Ginger Wiegand Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
6 Mehefin 2022	Sara Kirkpatrick Cymorth i Fenywod Cymru Wanjiku Mbugua- Ngotho BAWSO Andrea Cleaver Cyngor Ffoaduriaid Cymru Joanne Hopkins Iechyd Cyhoeddus Cymru Naomi Alleyne Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Kirsty Thomson JustRight Scotland
27 Mehefin 2022	Amanda Blakeman, Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Dyddiad	Enw a sefydliad
	Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael **ar wefan y Pwyllgor**.

Cyfeirnod	Sefydliad
MW01	Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon, Caerdydd, TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities), Comunidade de Lingua Portuguesa Wrecsam, Vesta SFS, Bawso, Sefydliad Henna a Women Connect First
MW02	NSPCC
MW03	Race Council Cymru
MW04	Iechyd Cyhoeddus Cymru
MW05	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
MW06	Dr A Innes, y Ganolfan Drais a Chymdeithas yn City, University of London a'r UKRI Prevention Research Partnership VISION Consortium
MW07	Cymorth i Fenywod Cymru a Bawso